# Y DINESYDD

Hydref 2020 — Papur Pobl Caerdydd a'r Fro — Rhif 452



Llun: BBC

## C'mon Cymru – ymgyrchoedd newydd y timau cenedlaethol

## Merched y Wawr yn mentro ar Zoom

## Yr eglwysi'n ailagor eu drysau

## Cyfnod Clo Karl Davies yn Canton, Tseina


Llun: BBC

# Y DINESYDD

**Golygydd:**
**Manon Phillips**

***Golygydd Tachwedd***
***Alun Treharne***

Cyfraniadau erbyn 27 Hydref i:
aluntreharne@btinternet.com
91 Windermere Avenue, Parc y Rhath,
Caerdydd, CF23 5PS
029 2075 4436 / 07800 908898

Y Digwyddiadur:
Yr Athro E Wyn James
JamesEW@caerdydd.ac.uk
16 Kelston Road, Caerdydd, CF14 2AJ
029 20628754

Hysbysebion:
Iestyn Davies
iestynd@gmail.com
15 Birchfield Crescent, Parc Victoria,
Caerdydd, CF5 1AE
07876 068498

Tanysgrifiadau i:
Ceri Morgan
ceri33@btopenworld.com
24 Cwm Gwynlais, Tongwynlais,
Caerdydd, CF15 7HU
029 20813812 / 07774 816209

Prif Ddosbarthwr:
Arthur Evans
Yr Eglwys Newydd.
aloevans@icloud.com
029 20623628

**www.dinesydd.cymru**
Cyhoeddir gan Bwyllgor y Dinesydd.
Nodir hawl y golygyddion i gwtogi
ar erthyglau yn ôl y gofyn.

Argraffwyr:
Serol Print, Castell-nedd
Cysodydd: Dr Eirian Dafydd

CYMRAEG

Ariennir yn rhannol
gan
Lywodraeth Cymru

Y Cyfryngau Cymdeithasol

Twitter: @DinesyddCdydd
Facebook:
www.facebook.com/YDinesydd


## Gair gan Olygydd y Mis

Mae rhifyn mis Hydref o'r Dinesydd yn mynd i'r wasg with inni wynebu rhagor o gyfyngiadau yma yng Nghaerdydd ond braf yw gweld trigolion y ddinas a'r fro yn addasu i'r normalrwydd newydd.

Mae Canghennau Merched y Wawr a chymdeithasau lu wedi mentro cynnal eu cyfarfodydd ar Zoom, rhai am y tro cyntaf, a'r eglwysi a'r capeli yn ailagor eu drysau i wasanaethau sydd â gwedd wahanol iawn.

Wrth i'r tymor chwaraeon ailgydio, mae Tim Hartley yn trafod gobeithion y tîm pêl-droed cenedlaethol wrth iddyn nhw wynebu Lloegr mewn gêm gyfeillgar ar yr 8fed o Hydref. Ac i gadw'r ddysgl yn wastad, mae Hywel Owen yn bwrw cipolwg yn ôl ar dymor tîm criced Morgannwg a Rhys ap Wiliam yn trafod ymgyrch rygbi'r Hydref, a'i brofiadau rygbi yn ystod y cyfnod clo.

Cofiwch hefyd fynd â chopi o'r Dinesydd gyda chi am dro i'r Bae er mwyn adnabod holl adar yr Hydref yng ngholofn Gethin Jenkins-Jones.

Mae croeso ichi anfon erthyglau a lluniau ar gyfer y rhifyn nesaf. Os allwch chi eu hanfon at olygydd Mis Tachwedd – Alun Treharne erbyn 27 o Hydref.

Pob hwyl,

*Manon*

## Diwylliant Gwerin Cymru - Cais caredig am Gymorth

Braint fawr i unrhyw un yw cael treulio blynyddoedd lawer yn rhoi ar gof a chadw agweddau ar ddiwylliant gwerin cyfoethog Cymru.

A dyna'r fraint a ddaeth i'm rhan i er yn fachgen ifanc yn gynnar yn chwedegau'r ganrif ddiwethaf. Bûm yn sgwrsio gydag oddeutu tair mil o bersonau, a chofnodi tystiolaeth dros 400 o'r gwragedd a'r gwŷr cymwynasgar a diwylliedig hyn ar dâp.

Wedi'r cofnodi, ein braint fawr wedyn yw rhannu'r deunydd gwerthfawr â phobl Cymru a thu hwnt.

A dyna amcan y nodyn hwn. A hoffech chi, neu a wyddoch chi am rywrai eraill a garai ran yn y gorchwyl pwysig o gyflwyno'r dystiolaeth ddiddorol hon i eraill, yn bennaf drwy gyfrwng cyfres o ysgrifau a llyfrau? Teipio yw'r prif waith.

Diolch o galon am gysylltu.
Robin Gwyndaf.
Ffôn: 029 2056 6249. rgwyndaf@sky.com

**Cadwch mewn cysylltiad â'r Dinesydd**
**ar Twitter trwy ddilyn ein cyfrif newydd**
**@DinesyddCdydd**
**ac ar Facebook trwy ddilyn**
**www.facebook.com/YDinesydd**

# Colofn G.R.



## *Beth fydd ein hanes flwyddyn nesaf?*

Mae Hydref arall wedi cyrraedd yn ein hanes ac mae hi'n Hydref rhyfedd rhwng ymgodymu â'r firws felltith 'ma sy wedi troi ein bywydau wyneb i waered a gorfod wynebu fel gwlad i adael yr Undeb Ewropeaidd ar ddiwedd y flwyddyn hefo neu heb gytundeb. Ond er gwaethaf popeth rhaid aros yn gadarnhaol a gobeithio am ddyddiau gwell i ni gyd yn 2021.

Adeg hon o'r flwyddyn byddaf yn edrych ymlaen yn arw at edmygu'r golygfeydd hydrefol pan fydd dail y coed i gyd yn troi'n lliwiau llachar ac yn creu harddwch rhyfeddol cyn daw llymder y Gaeaf i'n diflasu.

Mae'r bardd Eifion Wyn wedi ein swyno gyda'i gerddi telynegol i fisoedd y flwyddyn ac yn ei gerdd i'r Hydref gorffenna drwy ddweud "Diolch i Dduw am aelwyd/A diolch i Dduw am dân/Mae rhywrai heb dân nac aelwyd/Na chalon i ganu cân." Mae geiriau'r bardd a sgrifennodd nôl ar ddechrau'r ugeinfed ganrif yr un mor wir heddiw hefo llawer o bobl yn ein byd yn dal i ddioddef newyn, haint, trais a thlodi difrifol.

Ers diwedd yr Haf mae Siop y Felin yn yr Eglwys Newydd wedi ail agor ar ei newydd wedd gyda pherchennog newydd sef Siân, gynt o Flaenau Ffestiniog, a gobeithio bydd Cymry'r ardal ac ymhellach yn ei chefnogi i sicrhau bod gennym ni gyfle o hyd i brynu llyfrau, cardiau a chylchgronau Cymraeg yn y rhan hon o'r ddinas.

Cyn bo hir rwan bydd prifathro newydd gan Ysgol Gyfun y Fro sef Rhys Angell Jones, ac yn Ysgol Gyfun Glantaf mae Mathew Evans wrth y llyw ers dechrau'r tymor a rhaid dymuno'n dda iddyn nhw yn eu swyddi heriol yn yr hinsawdd bresennol, a'r un pryd rhaid dymuno'n dda i Aled Price ac Alun Davies a diolch iddyn nhw am eu gwasanaeth clodwiw i addysg Gymraeg yn y parthau hyn.

Ar hyn o bryd mae tîm pêl-droed Cymru ar ei fyny dan hyfforddiant y seren bêl-droed Ryan Giggs gynt o Drelai ar ôl eu buddugoliaethau dros y Ffindir a Bwlgaria a rhaid llongyfarch y pêl-droediwr ifanc ac addawol Ben Cabango ar ennill ei gap cyntaf dros ei wlad wrth gael ei anfon ar y cae ychydig o funudau cyn diwedd y gêm yn erbyn y Ffindir. Mae o'n gynddisgybl o Ysgol Pen Cae ac Ysgol Gyfun Plasmawr. Dwi'n siwr bod ei deulu a phawb yn falch iawn ohono.




*Llun: Andrew Dowling photo/ Shutterstock.com*

*Ben Cabango*

Mae'r 'cloi mawr' oherwydd yr haint wedi creu anawsterau i Bapurau Bro Cymru gan gynnwys *Y Dinesydd*. Ond mae nifer o'r papurau wedi goresgyn y cyfnod heriol hwn trwy roi y papurau ar y we a felly mae'r papurau wedi gallu para'n ddifwlch. Dan ni yng Nghaerdydd a'r Fro yn ddyledus i Bryan James, Cadeirydd Pwyllgor *Y Dinesydd* ac Arthur Evans, Prif ddosbarthwr y papur, am eu gwaith trylwyr i sicrhau parhad *Y Dinesydd.* Beth sy'n ddiddorol ydy'r ffaith bod rhoi y papur ar y we wedi golygu bod cylch llawer mwy eang yn ei ddarllen ac mae hyn yn amlwg wrth weld bod ambell enillydd croesair y papur yn dod o fannau eraill yng Nghymru!

---

## Gair o ddiolch

Rydym ni, fel teulu Ethni Jones, am ddiolch yn ddiffuant am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atom o golli gwraig, mam, mam-gu, chwaer a modryb hoff. Mae nifer wedi bod mor garedig â gwneud cyfraniad ariannol er cof amdani. Byddwn yn ei gyflwyno i gronfa Cyfle i Bawb yr Urdd sy'n helpu plant o bob cefndir gael mynd i wersylloedd yr Urdd. Diolch i chi gyd.

# Colofn Natur

## *Gwylio Adar y Bae*



**Gethin Jenkins-Jones**

Wrth i mi ysgrifennu'r erthygl hon mae'n gynyddol amlwg bod yr haf wedi dod i ben. Mae rhai o'n hadar cyfarwydd wedi gadael am wledydd twymach y de, mae niferoedd o wenyn ar yr adain wedi lleihau yn arw, ac mae'r nosweithiau'n mynd yn hirach. Ond, nid yw'r hydref yn dymor heb fywyd gwyllt i'w fwynhau. Yn wir, misoedd olaf y flwyddyn yw'r rhai gorau i ymweld ag un o ardaloedd mwyaf cyfarwydd y ddinas – Bae Caerdydd.

Rydw i wedi mwynhau ymweld â'r Bae i chwilio am adar ers fy ieuenctid, ac mae gen i sawl atgof o gael fy ngwasgu fel sardîn yng nghefn fy nghar... ngherbydau trên gyda fy nhelesgôp i gyrraedd y lle. Er nad yw'r Bae yn lle hynod o wyllt, mae'r ardal eang o ddŵr a'r gwlyptiroedd yn denu llu o adar. Wrth gwrs, cynefinoedd gwahanol oedd yna ugain mlwynedd yn ôl. Rydw i'n rhy ifanc i gofio'r dyddiau cyn i'r morglawdd gael ei adeiladu ond, yn amlwg, dwi'n gwybod taw gwastadeddau llaid a morfa heli oedd yna ers talwm. Roedd adeiladu'r morglawdd yn ddadleuol iawn ar y pryd oherwydd fe wnaeth ddadleoli miloedd o adar a oedd yn dibynnu ar y llaid. Er bod hyn yn wir, mae dal llawer o fywyd gwyllt i'w weld a'i fwynhau ym Mae Caerdydd heddi.




Llun: Gethin Jenkins-Jones

Hwyaden gopog



Llun: Jeff Slocombe

Gwyach fawr gopog



Llun: Jeff Slocombe

Y lle gorau i fwynhau natur yn y Bae, heb os, yw gwarchodfa'r gwlyptiroedd a gafodd ei chreu yn 2002 i ddigolledi, yn rhannol, y dinistr i gynefinoedd yr aber. Er mai ond un llwybr sy'n mynd drwy'r warchodfa, gallwch weld a chlywed llawer o bethau ohono (ac nid oes siawns mynd ar goll!). Gwrandewch am floedd swnllyd Telor Cetti yn galw o galon y cyrs, heb os un o adar mwyaf swnllyd y wlad. Hwn yw un o'r ychydig deloriaid sy'n treulio'r gaeaf gyda ni, ac un a ymledodd i Brydain o'r cyfandir mor ddiweddar â'r saithdegau cynnar. Ond yr ardal orau o'r warchodfa yw rhan olaf y llwybr, sy'n ymestyn trwy'r cyrs i'r dŵr agored. Ar unrhyw adeg o'r gaeaf gallwch weld llu o wahanol adar y dŵr, fel y Bilidowcar, y Cwtiar a'r Crychydd, ac mae sgrech Gwylanod Pen-ddu i'w clywed ymhobman.

Yn aml, mae cannoedd o hwyaid ar y dŵr, â nifer fawr ohonynt wedi mudo cannoedd o filltiroedd i gyrraedd y lle. Un o'r rhywogaethau mwyaf cyffredin yw'r Hwyaden Gopog, â dros 400 ohonynt yno yn ystod gaeafau caled. Tipyn o olygfa! Tra bod yr iâr yn bennaf frown, mae'r ceiliog yn hawdd i'w adnabod, efo'i blu du a gwyn a'i gopog hir. Bydd y mwyafrif o'r rhain wedi dod o gyfandir Ewrop, gyda niferoedd llai o ardaloedd cyfagos. Hefyd i'w gweld yno mewn niferoedd da yw'r Corhwyaid, hwyaden leiaf Ewrop. Yn greadur swil, fe welwch chi nhw'n nofio yn agos at ddiogelwch y cyrs. Mae rhywogaethau mwy prin i'w gweld yno hefyd yn y gaeaf. Yn aml bydd ambell Hwyaden Benddu neu Hwyaden Lygad Aur ymysg yr Hwyaid Copog. Bydd rhain wedi treulio'r tymor nythu yn Scandinafia neu Wlad yr Iâ. Y Bae yw un o'r llefydd gorau yn Ne Cymru i weld y rhywogaethau hyn, ac mae hyd at hanner dwsin ohonynt i'w gweld yna yn flynyddol.

Mae'r cyrs hefyd yn lloches i filoedd o Ddrudwyod yn ystod nosweithau hir y gaeaf. Os ewch yno wrthi dywyllu (yn ddelfrydol ar noson heb fawr o wynt) gallwch weld cannoedd ohonynt yn ymgasglu i ffurfio un haid anferth a fydd yn hedfan uwchben y safle am sbel cyn plymio lawr i'r cyrs i glwydo. Mae cydsymud yr adar yn olygfa syfrdanol i unrhywun sy'n gwerthfawrogi natur, ac mae'n ddiddorol nad yw gwyddonwyr eto wedi cytuno ar wir gymhelliant y perfformiad hwn.

Er bod yr adar ar eu mwyaf niferus yn ystod y gaeaf, mae llawer o bethau i'w mwynhau ym Mae Caerdydd yn y gwanwyn hefyd. Un o fy hoff atgofion yno o'r gwanwyn olaf cyn mynd i'r brifysgol oedd gweld dawns garwriaeth pâr o Wyachod Mawr Copog. Mae'r ddawns yn un hardd ac unigryw, gyda'r ddau aderyn yn troi eu pennau o ochr i ochr efo chwyn yn eu pigau wrth droedio'r dŵr oddi tanynt hyd nes eu bod yn sefyll ar ei wyneb. Mae'r Bae hefyd, ar ddiwedd mis Mawrth, yn lle da i weld Gwenoliaid a Gwenoliaid y Glennydd cynta'r flwyddyn. Dwi wastad yn falch o'u gweld gan eu bod yn arwydd o dymor mwy pleserus sydd i ddod. Mae misoedd hir o'n blaenau cyn iddynt ddychwelyd gwanwyn nesaf, ond ewch i Fae Caerdydd cyn hynny i fwynhau golygfeydd hyfryd y gaeaf yno.

# Pobol y Rhigwm

Croeso i gornel y rhigymwyr eto. Fe gofiwch mai tasg 36 oedd limrig yn cynnwys y llinell 'Mae'n rhaid 'mod i'n dechrau heneiddio'. Daeth cannoedd o gynigion i law, ond dim ond gofod i gyhoeddi dau o'r goreuon sydd y tro hwn.

Mae Bytholwyrdd yn amlwg yn cadw'n heini ond yn dechrau gweld pethau'n anos wrth gyrraedd oed yr addewid. Limrig hwylus a hwyliog i godi gwên.

Mae'n rhaid 'mod i'n dechrau heneiddio,
Deng milltir yn unig cyn cinio,
Tri chopa mewn wythnos,
Le Tour mewn pythefnos,
Ie, nawdeg yw'r oed sydd yn brifo.
*Bytholwyrdd*

Fodd bynnag, y gorau y tro hwn yw eiddo Boi o'r Graig:

Mae'n rhaid 'mod i'n dechrau heneiddio,
A'r hen gof ddim cystal ag oedd o,
A dyna beth arall,
I chwithau gael deall –
Dyw'r hen gof ddim cystal ag oedd o.
*Boi o'r Graig*

Ychwanegodd y bardd droednodyn esboniadol: *Nodyn caredig i gynorthwyo'r beirniad: i hwn weithio, os yw e'n gweithio o gwbwl (!), mae'n help i gymryd saib cyn y llinell olaf.*

Diolch am hwn… ni fyddwn wedi gwerthfawrogi ei gampwaith hebddo.

Mae henaint wedi peri i'r bardd anghofio ei fod eisoes wedi defnyddio'r llinell glo yn yr un limrig. Difyr iawn. Dw i ddim yn deall y cyfeiriad yn y ffugenw, ond ni waeth am hynny.

**Enillydd tasg rhif 36 yw**
**Russell Thomas, Yr Eglwys Newydd**

Y dasg nesaf i'r rhigymwyr yw pennill o unrhyw fath, boed yn limrig, pennill telyn, englyn neu gerdd hirach:

**Cymydog neu Cymdogion**

Anfonwch eich cynigion yn ôl yr arfer at bryan.val.james@gmail.com erbyn 20 Hydref, 2020.

*Emyr Davies*

# Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd

*'Tybed a gollodd Evan James y cyfle i gydnabod diddordeb y Cymry mewn gwyddoniaeth a thechnoleg wrth lunio geiriau'r anthem?'*

Rwy'n cael blas ar ddarllen llyfr newydd Gareth Ffowc Roberts – *Cyfri'n Cewri: Hanes Mawrion ein Mathemateg* (Gwasg Prifysgol Cymru). Ysgrifennwyd y llyfr er cof am Llewellyn Gwyn Chambers (1924- 2014), arloeswr hanes mathemategwyr Cymru. Yn y Rhagair, mae'r awdur yn nodi'r newid a fu yn niwylliant poblogaidd Cymru ers 1856 pan gyhoeddodd Evan James a'i fab James ein hanthem genedlaethol ym Mhontypridd. Roedd mynd mawr ar ddatblygiadau gwyddoniaeth a thechnoleg, gyda chymdeithasau gwyddonoiaeth lleol yn codi fel madarch ar hyd a lled y wlad. Tybed a gollodd Evan James y cyfle i gydnabod diddordeb y Cymry mewn gwyddoniaeth a thechnoleg wrth lunio geiriau'r anthem? Erbyn diwedd y ganrif, roedd y dehongliad hwnnw wedi culhau i gynnwys ein barddoniaeth, ein cerddoriaeth, ein crefydd a fawr ddim arall?

Ymgais yw'r llyfr hwn i gefnogi'r newid sydd yn digwydd i ddwyn y gwyddorau (gan gynnwys mathemateg) i gorlan diwylliant Cymru heddiw, yn y ddwy iaith a cheir disgrifiadau o fywyd a gwaith un-ar-ddeg o bobol ac un symbol.

Y nodwedd sy'n arbennig trwy'r gyfrol yw'r modd apelgar y cyplysir agweddau bywyd y person dan sylw, gan gyfeirio at ardal eu magwraeth yn ogystal â'u cyfraniad i'w maes. Yn y modd hwn gellir cyfrif y gyfrol yn un wir ddiwylliannol.

*********************

Rwy'n ddyledus i Arthur Evans am ddwyn fy sylw at farwolaeth ddiweddar David Gwilym Morris Roberts o Harlech, peiriannydd sifil disglair iawn. Rhoes wasanaeth nodedig yn y diwydiant dŵr dros y byd. Mae teyrnged iddo yn y *Times* (4 Medi 2020) a gellir cael manylion ei fywyd a'i waith yn Wikipaedia.

*********************

Yn rhifyn 15 Medi o'r *Western Mail* ceir erthygl gyda'r pennawd, *The Welsh Few who played a vital role in Battle of Britain*. Roedd y dyddiad hwnnw yn nodi 80 mlynedd ers y frwydr fawr rhwng awyrenau Prydain a'r Almaen. Mewn modd cwbwl briodol mae'r erthygl yn cyfeirio at wasanaeth tri Chymro (Frederick William Higginson, John Hemingway, Harold Bird-Wilson) ac yn coffáu cyfraniadau dewr ac ymroddgar (hyd at farw) nifer fawr o griwiau bychan yr awyrennau.

Heb dynnu dim oddi ar wasanaeth yr arwyr hyn, mae'n briodol nodi bod mantais fawr gan y Prydeinwyr, sef, bod y setiau radar Y TU MEWN i'w hawyrennau; nid felly awyrennau'r Almaenwyr. Y prif arloeswr wrth sicrhau'r fantais hon oedd Edward George Bowen o Abertawe. Daeth yn enwog yn rhyngwladol fel Tad Radar ar Adain *(Father of Airborne Radar)*. Yn Abertawe ar dŷ ei fagwraeth mae dau blac yn ei goffáu. Dadorchuddiwyd yr ail ym mis Medi 2015 lle cefais y fraint o gyflwyno anerchiad yn y seremoni.

*Neville Evans*

# NEGES O FOSHAN

## Lowri Haf Cooke yn holi Karl Davies

***Er yn wreiddiol o Abergele (a chanddo wreiddiau ar Ynys Môn), bu Karl Davies yn byw yn Nhreganna am 28 mlynedd. Ond yn 2018, fe symudodd i Canton yn Tseina, pan gafodd waith fel Athro Rhyngwladol Saesneg fel ail iaith yng nghanolfan Education First yn ninas Foshan. Mae ei bartner, Jimmy, yn dilyn gradd Doethuriaeth yn yr Ysgol Feddygol ym Mhrifysgol Caerdydd, ac yn byw yma yng Nghymru ar hyn o bryd.***

Yng nghaffi Costa ar Sgwâr Lingnan, Foshan, yn nhalaith Canton, dwi'n ysgrifennu hyn o lith, gan fwynhau *espresso* i finiogi'r meddwl. Mae'r sgwâr hyfryd yma, sy'n llawn caffis, llefydd bwyta a siopau, yn syndod o brysur heddiw. Triawd yn fy ymyl yn cael cyfarfod busnes, mam a'i phlentyn wedi dianc yma rhag y gwres llethol, a lot o fynd a dod hamddenol ar hyd a lled y sgwâr. Golygfa sy'n fynegiant o normalrwydd bywyd yn Foshan a gweddill Tsieina ar hyn o bryd.

Does dim llawer o arwyddion ar ôl o'r argyfwng y buom drwyddi eleni. Mae ein tymheredd yn cael ei fesur wrth fynd i'r metro ac mae'n rhaid gwisgo mwgwd yno ac mewn siopau – ond mae gwisgo mwgwd erbyn hyn yn ail natur ac mae camu allan heb wisgo un yn teimlo yn chwithig.

Wrth feddwl am y cyfnod clo, mae gen i rywfaint o hiraeth amdano. Roeddwn i'n lwcus nad oedd dim rhaid i mi boeni'n ormodol am ddiogelwch teulu a chyfeillion ac roeddwn i'n teimlo'n gwbl ddiogel fy hun. Roedd **pawb** yn dilyn y canllawiau yn ddeddfol, a hyn yn fynegiant o'r cyd-ernes sy'n greiddiol i'r diwylliant Tsieineaidd, a dyna sut trechwyd y firws yma. Hefyd roedd yr awdurdodau yn cymryd **pob** cam posib i reoli'r sefyllfa. Wrth fynd allan i siopa bwyd, gwaith deg munud o gerdded bob ffordd i'r archfarchnad, byddai fy nhymheredd yn cael ei fesur o leiaf bum gwaith. Roedd swyddogion ar gornel pob stryd – yn llythrennol – a byddai rheiny yn mesur eich tymheredd wrth i chi basio, a chaech chi ddim pasio heb eich bod chi'n gwisgo mwgwd chwaith. Byddai'n rhaid ildio i'r thermomedr wedyn wrth gyrraedd y ganolfan siopa ac wedyn yn yr archfarchnad ac wedyn unwaith eto cyn cael mynediad i'r bloc fflatiau lle dwi'n byw.

Fe gyflawnodd y cwmni dwi'n gweithio iddo wyrth yn nyddiau cynnar y cloi a threfnu fod ei holl fyfyrwyr yn Tsieina, degau lawer o filoedd, yn cael eu gwersi ar -lein. Mwynheais y dysgu ar-lein yn fwy nag yr oeddwn i wedi ei ragweld ac roedd dysgu myfyrwyr o bob cwr o Tsieina, nid dim ond rhai Foshan, yn brofiad difyr hefyd.

Un o'r pethau hyfrytaf am y cyfnod clo oedd purdeb yr awyr. Roeddwn i wedi colli clywed sŵn yr adar yn canu ac fe'i clywais yn Tsieina am y tro cyntaf yn ystod y cyfnod hwn.

Fel y gŵyr pawb sy'n fy nabod, dwi byth adre ond roedd cael fy ngorfodi i aros adre yn brofiad brafiach na'r disgwyl. Roeddwn i'n ffodus o gael cwmni'r cathod, Jones a Cadi, a rheiny wrth eu boddau fy mod i adre drwy'r dydd. Coginiais fwy i mi fy hun nag yr ydw i erioed wedi ei wneud, roeddwn i'n iachach nag ers talwm ac mi gollais i bwysau hyd yn oed.

Manteisiais yn llawn ar yr arlwy anhygoel o gerddoriaeth gwych sydd ar gael ar YouTube.

Mae Jimmy, fy mhartner, o Foshan, a buom yn byw gyda'n gilydd yma am flwyddyn. Fe wnaethon ni gyfarfod ar-lein flwyddyn cyn i mi ddod yma ac felly roeddem ni wedi arfer gyda'r berthynas o hirbell/ perthynas ddigidol yn barod. Cyd-ddigwyddiad llwyr (ac anhygoel) oedd hi fy mod i wedi cael cynnig gwaith yn ei ddinas o mewn gwlad mor fawr o 1.4 biliwn o bobl, ond mae o yn byw yn Canton Cymru ers mis Medi llynedd yn gwneud PhD yn yr Ysgol Feddygol ym Mhrifysgol Caerdydd (ac wedi ymgartrefu yn fy fflat).



Y profiad brafiaf yn ystod y cyfnod clo oedd teimlo fy mod i lot nes adre. Ym myd digidol Zoom a WhatsApp doeddwn i ddim pellach i ffwrdd o fy ffrindiau a theulu yng Nghymru na rhywun ar ben y stryd. A'r hyn oedd yn crisialu'r teimlad o ddod adre yn fwy na dim oedd cael ymuno yng ngwasanaethau Eglwys Dewi Sant wrth i rheiny gael eu cynnal ar-lein. Dyw bod yn rhan o'r gynulleidfa ddigidol yn Canton Tsieina yn ddim gwahanol i fod yn rhan ohoni yn Canton Caerdydd, a dyna fendith.

# Eisteddfod Gadeiriol i Gaerdydd yn 2021

Yn dilyn llwyddiant ysgubol Eisteddfod Caerdydd gyntaf ym mis Ionawr 2020, ry'n ni'n edrych ymlaen, bellach at Eisteddfod Gadeiriol Caerdydd 2021. Do fe ddarllenoch chi hwnna'n iawn, fe fyddwn ni, gobeithio, yn cadeirio bardd yn 2021. Mae Geraint Edwards, cwmni Pedair Cainc, wedi cytuno i greu a rhoi cadair i ni, ac ry'n ni'n edrych ymlaen yn fawr at ei chyflwyno gobeithio!

Mae rhestr testunau Eisteddfod Gadeiriol Caerdydd 2021 yn fyw ar y wefan eisteddfodcaerdydd.cymru gyda chystadleuthau barddoniaeth a rhyddiaith ar gyfer plant ac oedolion. Y beirniaid llenyddol yw Gruffydd Eifion a Ceri Elen.

Eleni, hefyd, am y tro cyntaf, mae cyfle i ffotograffwyr ddangos eu doniau. Beirniad yr adran ffotograffiaeth yw Sioned Birchall. Y dyddiad cau ar gyfer cystadlu yw 27 Tachwedd 2020. Mae'r rheolau a'r amodau i gyd hefyd ar y wefan.

Yn anffodus, oherwydd y sefyllfa sydd ohoni yng Nghymru ar hyn o bryd, ni fydd modd cynnal eisteddfod lwyfan yn 2021. Mae'n siom na fyddwn ni'n gallu cynnal eisteddfod flwyddyn nesaf, ar ôl llwyddiant ysgubol ein heisteddfod gyntaf eleni! Ro'n ni wedi disgwyl mlaen at gynnal eisteddfod ar ddydd Sadwrn i bawb allu mwynhau mwy o arlwy gwych y cystadleuwyr. Ond mae'n bwysig i ni feddwl am ddiogelwch pawb, ac felly roedd yn rhaid gohirio. Ond fe fyddwn ni nôl yn 2022!

Gan na fydd eisteddfod yn cael ei chynnal ar 23 Ionawr 2021, roeddem ni am nodi'r diwrnod gyda rhywbeth eisteddfodol. Felly ein cais ni i chi yw i anfon eich lluniau a'ch fideos o Eisteddfod Caerdydd 2020 atom i ni greu cyflwyniad arbennig i'w ddangos ar y cyfryngau cymdeithasol. Felly os oes gyda chi luniau da, neu fideos yr hoffech chi i ni gynnwys, yna anfonwch nhw at cyswllt@eisteddfodcaerdydd.cymru. Byddwn yn cymryd eich bod yn hapus i ni ddefnyddio unrhyw luniau neu fideos byddwch yn anfon atom.

Pob lwc i chi gyd os fyddwch chi'n cystadlu!

# Merched y Wawr Caerdydd

**Cyfarfod Seiber cyntaf Merched y Wawr Caerdydd**



Mae'n amlwg bod aelodau'r gangen yn giamstars ar Zoom bellach a braf felly oedd gweld llond sgrîn o wynebau cyfarwydd yn ein cyfarfod cyntaf ddechrau Medi. Pawb yn gysurus yn eu cartrefi ond eto yn gweld chwith am gwrdd go iawn!

Serch hynny cawsom noson agoriadol ddifyr ac addysgiadol yng nghwmni'r afieithus Sara Huws, sy'n adnabyddus fel cyflwynydd y gyfres Waliau'n Siarad ar S4C. Hanes a chelf yw ei maes ac yn ystod ei gyrfa mae wedi gweithio'n agos gyda rhai o wrthyrchau hanes a ffigyrau mwyaf hynod Cymru, trwy ei gwaith yn Sain Ffagan, Amgueddfa Cymru a Phrifysgol Caerdydd.

Cawsom flas ar ei phrofiadau gyda thema pwysigrwydd hanes merched mewn celf a phensaernïaeth yn gryf drwy'r cyfan. Eglurodd yr her o ddewis lleoliadau ar gyfer Waliau'n Siarad a'r cyfrifoldeb o gyfleu yr hanes a chodi ymwybyddiaeth ynglŷn â phwysigrwydd diogelu adeiladau sydd yn gymaint rhan o'n hanes. Hi yw cyd-sefydlydd yr *East End Women's Museum* a difyr oedd clywed hanes y datblygiad pwysig yma a ninnau fel aelodau yn myfyrio oni ddylem fod yn arwain y gad ar gael Amugeddfa Menywod i Gymru?

Bydd y gangen yn cyfarfod drwy Zoom yn fisol tan y bydd modd cyfarfod wyneb yn wyneb. Mae croeso cynnes i aelodau newydd. Os am ragor o wybodaeth cysylltwch â Niabenaur@hotmail.com

# Y DIGWYDDIADUR

## HYDREF

**Iau, 15 Hydref**
Merched y Wawr, Cangen y Felin. CogUno gyda Nerys Howell. Am 7.30pm trwy Zoom. I gofrestru, ebostiwch Eiry Davies (eiry.davies@hotmail.co.uk).

**Gwener, 16 Hydref**
Cylch Llyfryddol Caerdydd. Sgwrs gan Dr Bleddyn Owen Huws (Aberystwyth) ar y testun 'Pris Cydwybod: T. H. Parry-Williams a Chysgod y Rhyfel Mawr'. Am 7.00pm trwy Zoom. I gofrestru, cysylltwch â'r Athro E. Wyn James (JamesEW@caerdydd.ac.uk).

**Mawrth, 20 Hydref**
Cymrodorion y Barri. 'Melinau Gwlân, Amaethu a Masnachu': noson bontio ar gyfer dysgwyr yng nghwmni Ann Davies. Am 7.30pm trwy Zoom. I gofrestru, cysylltwch ag (eirypalfrey@gmail.com).

## TACHWEDD

**Gwener, 6 Tachwedd**
Menter Caerdydd. Cwis Nos Wener gydag Aled Wyn. Am 7.30pm trwy Zoom. £5 y tîm. I gofrestru, ewch i www.mentercaerdydd.cymru. Cynhelir y cwis ar nos Wener gyntaf bob mis.

**I anfon gwybodaeth i'r Digwyddiadur gweler manylion ar dud. 2**

# Colofn Hannah



## *Mwy o rinweddau Border Bach Crwys*

Shwmae 'to --- Shwd a'th y deisien lafant? Wel, 'y ni wrth y Border Bach heddi 'to'. Beth sy' ma heddi te?

"Dacw nhw y Lili fach MINT a THEIM a mwsg"

'Wy newydd gitsho m'wn deilen mintys, ei wynto fe, a'i fita fe m-m—m –neis.

Geso chi gig o'n i gino Dy' Sul a saws mintys 'da fe? Wel, y sail i'r arferiad 'ma yw bod mintys yn help i drilo bwyd, yn enwetig cig, hefyd ma' fe fod i roi awch at fwyd os y'ch chi 'di colli'ch stumog. Ei droi o gwmpas y ceg wetyn os o's *ulcer* 'da chi, (ond cofiwch beido gweud wrth bawb ne' fydd pawb yn moyn un!!!!!) Neud 'r un peth i galetu cig y dannedd ar ôl eu tynnu. Yn amser y Rhufeiniaid, symbol o groeso o'dd mintys, o'n nhw'n rhoi sbrigyn i'r visitors o'dd yn dwad i'r vilas, ac i berarogli eu baddonau. O'dd lleianod yn ei wasgaru'r hyd y llorie yn y lleiandai i gatw llycod bant. Ma sawl math wrth gwrs, ma 'da fi dou yn tyfu fan hyn, mintys melys, a mintys afal pîn, ma hwn yn ddeuliw, gwyrdd a hufen.

Sawl blwyddyn yn ôl erbyn hyn o'n i'n mynd i briotas gatre, ac fe ddotes i fwnshed o'r mintys Afal Pîn wrth gefen yr het am fod y ddeuliw yn "matsho". Wel, yn ystod un emyn yn y briotas, 'ma fi'n clywed dyn wrth gefen i fi'n gweud wrth ei wraig —"W i'n gallu gwynto mint, fel cino Dy' Sul, ma'n hala want pwyd arnoi". O'n i'n wên o glust i glust o'i fla'n e!!

Wetyn ma Mintys Mair, (*Spearmint),* Mintys y Gath, *(Catmint)* a Mintys Po'th (*Peppermint).* O'dd Mangu yn hala fi i'r 'Drygister' i hol yr ola' at y gwynt!!

A nawr at wheched pennill Crwys;-

"Dwy neu dair briallen ffel,
A daffodil bid siwr,
A'r cyfan yn y Border Bach
Yng ngofal rhyw 'hen ŵr'.

Hen ŵr, - *Southernwood* yn Sisneg, a dyma un arall o'r llysiau 'berchid am eu lles yn fwy na'u llun'.

Un o'r planhigion o'dd pobol yn arfer 'iwso' pan o'dd pawb yn gorffod talu i weld y doctor, a'r geinog yn brin. Gellid ei g'mysgu 'da lard i neud eli at y cro'n, 'r un peth a eli Mangu glywsoch chi amdano yn y sgwrs gynta', ac at yr un pwrpas. O'dd rhybudd yn ca'l i roi m'wn llyfre am yr Hen Ŵr, y dylid ei osgoi os o'ch chi'n erfyn babi, a ma son am fydwragedd yn roi hwn i ferched o'dd ishe erthyliad. Ond ma enw hyfryd arall amdeno fe sef Shili-ga-bŵd yng ngherdd Isfoel.

Roedd llwyn bach gan Mam hyd y diwedd
Heb arno na blodyn na chnwd,
Un difalch a hollol werinol
A alwai yn shili-ga-bŵd.

Gofalai amdano fel plentyn
Bob tywydd, boed oer neu yn frwd,
Gan dod â'i thicanter o'r cyffur
At iechyd y shili-ga-bŵd.

Pan alwai rhyw ffrind ar ei siwrnai
Roedd hi'n ddigyfewid ei mŵd,
Anrhegai pob un cyn ymadael
Â sbrigyn o'r shili-ga-bŵd.

Aeth Mam yn fethiannus gan henaint,
A'r llwyn a ymgrymodd i'w gŵd,
A surodd y sawr a'r sirioldeb
A gariai y shili-ga–bŵd.

Fe nychodd y gwraidd o dorcalon
Achrinodd y dail yn eu pŵd,
A phan aeth ei geidwad i'r beddrod
Aeth yntau - y shili-ga-bŵd.

Ni'n dwad nawr at bennill ola Crwys:-

"Hen estron gwyllt o Ddant-y-Llew"

Ma'r hen flotyn ma 'di ca'l bad press erio'd. 'Dw i'n lico fe, ac yn gatel llonydd iddo fe, â'i wyneb mawr melyn fel wŷ 'di ffrio, a ma 'na 'iws' iddi fe 'fyd. Gallwch neud diod o'r gwr'iddyn, ac yn ystod yr Ail R Byd, nath yr Undeb Sofietaidd ddefnydd o'r letecs yn lle rwber. Yr enw cyffretin amdeno fe yw 'botyn pisho 'n y gwely' Pam? achos ei fod e'n ddiwretig, ac yn ca'l ei gydnapod drwy Ewrop gyfan.

Ma Culpepper yn ei *Herbal* yn gweud *'it openeth the passage of urin'*. Nawr os o's dafad 'da chi, (ar y cro'n, nace yn y ca'!) - torrwch y coesyn, a rwto'r sudd gwyn ar y ddafad, a'r tro nesa chi'n neud cawl, ychwanegwch twshged fach o'i ddail ifanc iddo fe.

A chi'n gwpod, 'w i newydd hwthu'r hate i weld beth o'r gloch yw hi, a wetws e wrtho i bod hi'n hen bryd i fi stopo - ma' fe'n eitha reit ed!

Felly, Da boch chi tan tro nesa,
a Iechyd Da.

# Gwylio'r Geiniog



## Huw Aled Accountants

Ar 1 Medi, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru fanylion am y Gronfa Adfer Diwylliannol lle mae grant o hyd at £150,000 ar gael i fusnesau a gweithwyr llawrydd sy'n gweithio yn y celfyddydau yng Nghymru. Mae **ceisiadau'n agor ar 14 Medi** a gall ymgeiswyr wirio eu cymhwysedd nawr trwy ymweld â: https://fundchecker.businesswales.gov.wales/culture/cy

Yn ystod y cyfnod clo, mae llawer o unigolion hunangyflogedig wedi gweld gostyngiad sylweddol yn eu hincwm. Cofiwch, os cofnodir colled mewn un flwyddyn dreth, gellir ei ddefnyddio yn erbyn ffynonellau incwm eraill yn y flwyddyn dreth gyfredol neu yn erbyn incwm o flynyddoedd blaenorol a gall hyn arwain at ad-daliad treth.

Cyn cyllideb nesaf Llywodraeth y DU ym mis Hydref neu fis Tachwedd, mae sôn y bydd newidiadau mewn cyfraddau treth yn y meysydd canlynol:

***i. Treth ar eiddo:*** os ydych chi'n ystyried gwerthu ased, efallai yr hoffech chi gwblhau hyn cyn y Gyllideb.

***ii. Rhyddhad treth ar gyfraniadau pensiwn:*** os ydych chi'n ystyried gwneud cyfraniad pensiwn mawr cyn diwedd y flwyddyn dreth, efallai yr hoffech chi wneud hyn cyn y Gyllideb. Cysylltwch â ni os ydych am drafod unrhyw faterion.

Yn ôl ym mis Medi 2002, lansiodd Llywodraeth y DU gynllun Cronfa Ymddiriedolaeth Plant, lle cafodd plant a anwyd o fis Medi 2002 dalebau gan y Llywodraeth i fuddsoddi ar gyfer y dyfodol, gyda'r arian ar gael pan byddai'r plant yn cyrraedd 18 oed. Bydd y buddsoddiadau yma yn dechrau aeddfedu o fis Medi 2020 ymlaen. I wirio a oes gan eich plentyn gronfa, ewch i:
https://www.gov.uk/cronfeydd-ymddiriedolaeth-plant

**Cwestiynau Huw ac Aled:** Prynodd fy mam gyfranddaliadau yn ôl yn 2010 a etifeddais yn 2015. Yn ddiweddar, rwyf wedi gwerthu'r cyfranddaliadau yn llawn. Beth yw'r goblygiadau treth ar eiddo?

Ar gyfer cyfranddaliadau a etifeddwyd, cyfrifir yr elw gan gyfeirio at bris y cyfranddaliadau ar y dyddiad yr etifeddwyd yr ased yn 2015, yn hytrach na'r dyddiad prynu gwreiddiol yn 2010. O ganlyniad, mae'n bwysig cael pris y cyfranddaliadau o'r broses profiant yn 2015.

Mae'r elw trethadwy o waredu cyfranddaliadau yn cael ei drethu ar 10% ar gyfer trethdalwyr cyfradd sylfaenol neu ar 20% ar gyfer trethdalwyr cyfradd uwch ac mae pob unigolyn yn derbyn lwfans personol ar gyfer elw ar eiddo o £12,300 ar gyfer y flwyddyn dreth 2020-2021.

*Am fwy o fanylion, cysylltwch gyda ni trwy: www.huwaledaccountants.com neu 029 2069 4524.*

---

# Tymor Criced o'r diwedd

Roedd misoedd heulog Ebrill, Mai, Mehefin a Gorffennaf yn rhai rhwystredig iawn i chwaraewyr criced ledled Cymru ynghyd â dilynwyr Clwb Criced Morgannwg. Yn sgîl Covid-19, dechreuodd tymor Morgannwg ar 1 Awst yn hytrach nag ar 19 Ebrill. Yn wahanol i'r ddwy adran arferol yn y bencampwriaeth 4 niwrnod, dosbarthwyd y 18 sir i dair adran rhanbarthol er mwyn cystadlu am Dlws Bob Willis. Trefnwyd fod Morgannwg yn chwarae yn erbyn Gwlad yr Haf, Swydd Gaerloyw, Swydd Gaerwrangon, Swydd Northampton a Swydd Warwick. Byddai Morgannwg yn chwarae yn erbyn yr un siroedd yn y gystadleuaeth 20 pelawd. Yn yr un modd â phob camp arall, nid oedd modd i'r cefnogwyr fynychu'r gemau a rhaid oedd bodloni ar y darllediadau byw ar y we.



Yn anffodus, siomedig fu hanes tymor Morgannwg. Yn nhlws Bob Willis colli fu'r hanes mewn tair gêm a chafwyd gêm gyfartal yn y ddwy arall. Y prif broblem oedd y batio a gwelwyd eisiau seren y tymor diwethaf, Marnus Labuschagne o Awstralia. Yr oedd dau uchafbwynt yn erbyn Swydd Northampton. Sgoriodd Callum Taylor o Gasnewydd 106 yn ei fatiad cyntaf i'r sir tra sgoriodd Marchant de Lange 113 oddi ar 62 pêl - y cant cyflymaf yn hanes y sir. Eto colli'r gêm honno fu hanes Morgannwg yn anffodus!

Yr oedd ymgyrch Morgannwg yn y gystadleuaeth 20 pelawd ychydig yn well gan ennill 4 o'r 10 gêm. Rhaid hefyd canmol perfformiadau'r troellwr ifanc o Gaerdydd, Prem Sisodiya. Yr oedd ennill y ddwy gêm olaf yn hwb i'r cefnogwyr ar gyfer y tymor nesaf. Y gobaith yw y bydd modd cael tymor llawn yn 2021 ond amser a ddengys.

***Hywel Owen***

# Llys a Llan

*Colofn sy'n crwydro ar hyd meysydd llên, crefydd a hanes yng Nghaerdydd a'r Fro*

## Yr Athro E. Wyn James





**Evan Rowland Jones, 'Y Major bach': Tregaron – Wisconsin – Caerdydd Rhan 2**

***Yn y rhifyn diwethaf adroddwyd am y ffordd y mentrodd Evan Rowland Jones yn 1856, yn fachgen 15 mlwydd oed, o Dregaron i ddechrau bywyd newydd yn Wisconsin; y ffordd yr ymunodd â'r fyddin ar ddechrau Rhyfel Cartref America oherwydd ei gasineb mawr tuag at gaethwasiaeth; a'r ffordd y dringodd yn gyflym yn y gwasanaeth sifil ar ôl y rhyfel nes cael ei benodi'n Gonswl America yn Newcastle upon Tyne yn 1869. Yn awr, yn ail hanner yr erthygl, dyma adrodd gweddill ei hanes lliwgar:***

Ymdaflodd Evan i'r bywyd dinesig a diwylliannol yn Newcastle, a blodeuo fel awdur. Ymhlith nifer o lyfrau a gyhoeddodd tra oedd yno roedd ei arweinlyfr ar gyfer ymfudwyr i UDA, *The Emigrant's Friend* (1880), a aeth i sawl argraffiad. Hefyd, tra oedd yno sefydlodd y cylchgrawn dylanwadol *Shipping World* yn 1883, y byddai'n parhau i'w olygu hyd ei farwolaeth. Yna, yn niwedd 1883 cafodd ddyrchafiad, a chynnydd sylweddol yn ei gyflog (o $1,500 i $2,000 y flwyddyn), pan benodwyd ef yn Gonswl America ar gyfer '*Cardiff and its dependencies*' (a gynhwysai borthladdoedd Casnewydd, Abertawe, Llanelli ac Aberdaugleddau yn ychwanegol at Gaerdydd ei hun, a oedd yn un o borthladdoedd prysuraf y byd ar y pryd oherwydd y diwydiant glo).

Ymdaflodd yn awr i fywyd Caerdydd a Chymru. Roedd yn radicalaidd ei ysbryd. Cefnogai'r Blaid Ryddfrydol ac amcanion y mudiad gwladgarol 'Cymru Fydd'. Roedd llun Vos ohono, a gyflwynwyd yn dysteb iddo gan Gymrodorion Caerdydd yn 1891, yn ei bortreadu yng nghanol ei lyfrau yn ei gartref ym Mhenarth, a diddorol darllen y sylw hwn mewn un papur newydd: '*It naturally affords a Welsh Liberal considerable satisfaction to see the books upon which Major Jones leans for support. They are Dr [Thomas] Rees's "History of Nonconformity in Wales" and Dr Owen Thomas's "Life of John Jones, Talysarn"* ' – er mai rhywbeth yn y cefndir yn hytrach nag yn y blaendir oedd crefydd iddo ef yn bersonol, hyd y gwelaf. (Beth, tybed, a ddigwyddodd i'r llun hwnnw gan Vos?)

Roedd Evan yn gefnogydd brwd i ddwy chwaer-gymdeithas a ffurfiwyd yn 1885, sef 'Cymdeithas yr Iaith Gymraeg/ The Society for Utilizing the Welsh Language', a sefydlwyd er mwyn hybu dysgu'r Gymraeg mewn ysgolion, a Chymrodorion Caerdydd, a oedd â'i bryd ar gryfhau Cymreictod y dref yn wyneb y Seisnigo cynyddol. Roedd hefyd yn frwd ei gefnogaeth i'r Coleg Prifysgol newydd a sefydlwyd yng Nghaerdydd yn 1883, a bu'n aelod o Gyngor y Coleg.

Bu farw Dan Isaac Davies, un o brif hyrwyddwyr Cymdeithas yr Iaith Gymraeg ac awdur y gyfrol *Tair Miliwn o Gymry Dwy-ieithawg mewn Can Mlynedd* (1885), ym mis Mai 1887 yn ŵr ifanc 48 mlwydd oed. Ar ôl y gwasanaeth angladdol yn yr Tabernacl ar yr Ais, Evan Rowland Jones oedd un o'r rhai, ar gais arbennig y teulu, a gludodd ei arch at lan y bedd ym Mynwent Cathays, ac roedd yn un o'r ddau a draddododd anerchiad yn y fan honno. Dan Isaac Davies a ofynnodd i Evan Rowland Jones a fyddai'n barod i ddilyn Dafydd Morganwg, awdur *Yr Ysgol Farddol*, yn ail Lywydd Cymrodorion Caerdydd. Bu yn y swydd honno rhwng 1887 ac 1894, ac o dan ei lywyddiaeth fe dyfodd yn gymdeithas o gryn ddylanwad, a chanddi aelodaeth o ryw 900 erbyn diwedd ei gyfnod yn Llywydd. Gwnaed ymdrechion glew gan y Cymrodorion i ledu'r defnydd o'r Gymraeg yn y dref a'r tu hwnt, yn enwedig ym myd addysg; ac yn 1887 fe ardrethodd y Llywydd newydd, o'i boced ei hun, rif 70 Heol Eglwys Fair i fod yn ddarllenfa ac yn fan ymgynnull ar gyfer y Cymrodorion a chymdeithasau Cymreig eraill.

Yn rhannol am iddo fod yn gryf o blaid masnach rydd, sathrodd Evan ar gyrn yr awdurdodau yn America ac ymddiswyddodd yn 1891 ar ôl bod yn gonswl am 22 o flynyddoedd dan chwe gweinyddiaeth arlywyddol – cyfnod nodedig o hir ar gyfer swydd o'r fath, a ddibynnai gymaint ar y ffordd roedd y gwynt gwleidyddol yn chwythu. Ar unwaith, gofynnwyd iddo a fyddai'n barod i fod yn ymgeisydd seneddol dros y Rhyddfrydwyr. Mynnodd ei fod am gael sedd yng Nghymru, a'r diwedd fu iddo gael ei ethol yn Aelod Seneddol dros Fwrdeistrefi Caerfyrddin yn Etholiad Cyffredinol 1892.

Fel aelod seneddol, cefnogai'r 'Blaid Gymreig' ymhlith y Rhyddfrydwyr, a oedd yn cynnwys pobl fel David Lloyd George a Tom Ellis. Roedd o blaid ymreolaeth i Iwerddon a datgysylltu'r Eglwys Sefydledig yng Nghymru. Cyflwynodd fesur a fyddai'n rhoi caniatâd i awdurdodau lleol yng Nghymru reoli'r fasnach mewn diod yn llym iawn – er y byddai'r 'Major bach' ei hun yn cael ei weld yn crwydro coridoriau San Steffan wedi cael tropyn yn ormod! Siaradai hefyd ar faterion yn ymwneud â llongau a byd masnach. Ond byr fu ei yrfa seneddol. Roedd y tollau a osodwyd gan lywodraeth yr Unol Daleithiau – y 'McKinley Tariff' – wedi effeithio'n ddrwg eithriadol ar y gweithiau tunplat yn ei etholaeth ac, yn eironig braidd, gan fod Evan Rowland Jones ei hun yn gryf yn erbyn tollau ac o blaid

masnach rydd, fe gollodd ei sedd yn Etholiad Cyffredinol 1895 oherwydd ei gysylltiadau Americanaidd.

Wedi iddo golli ei sedd, arhosodd yn Llundain hyd ei farw, gan ganolbwyntio'n bennaf ar ei waith gyda'r *Shipping World*. Yn 1867 roedd wedi priodi Kate Alice Evans, o Lanwnda yn sir Gaernarfon yn wreiddiol ond a oedd wedi ymfudo i Wisconsin gyda'i theulu. (Dychwelodd hi i Gaerdydd wedi i'w gŵr farw, ac roedd yn byw yn 31 Heol Casnewydd adeg ei marwolaeth yn 1927.) Ni chawsant blant, ond cymerwyd ei hanner brawd iau ef, Rees Rowland Jones (a fu'n feddyg ym Mangor am flynyddoedd), o dan eu hadain. Ac un arall a dderbyniodd dipyn o gymorth ganddynt yn ei ieuenctid oedd Joseph E. Davies, cyfaill i'r Arlywydd Roosevelt a Llysgennad America i'r Undeb Sofietaidd (y gwnaed ffilm yn ystod yr Ail Ryfel Byd yn seiliedig ar ei lyfr poblogaidd *Mission to Moscow*), ac un a fu'n clustfeinio ar ran llywodraeth America ar sgyrsiau Cymraeg David Lloyd George a Billy Hughes, prif weinidog Awstralia, yn y Gynhadledd Heddwch ym Mharis yn 1919. Roedd Joe Davies yn fab i'r bregethwraig o Wisconsin, 'Rahel o Fôn', a'i gŵr, Edward Davies, a ddeuai o Dregaron yn wreiddiol; ac fe roddodd Joe yr enw 'Tregaron' ar ei stad yn Washington, D.C.

Cyhoeddodd Evan Rowland Jones nofel ramantaidd, *Una Montgomery*, yn 1881. Mae sawl un wedi nodi bod ei fywyd ef ei hun yn darllen fel rhamant, a'i fod yn ymgorfforiad o'r 'Breuddwyd Americanaidd'. Meddai'r *Welsh Outlook* amdano adeg ei farw: '*Although, perhaps, the younger generation of Welshmen hardly knew the name of Major Evan Rowland Jones, who died at Hampstead this month, yet he was one of the most interesting and picturesque Welshmen of his generation.*' Bu farw gan mlynedd yn ôl, ym mis Ionawr 1920, yn 79 mlwydd oed, gan adael £9,000 yn ei ewyllys – ddim yn ffôl, o gofio iddo ffoi o Dregaron yn fachgen ifanc, heb yr un geiniog bron yn ei boced, yn 1856.

## Meddyliau Mercher yn ystod cyfnod y Covid

Oherwydd y Cloi Lawr, ni fu modd cynnal oedfaon Y Pasg eleni ym Methel, Penarth a'r Tabernacl, Y Barri. Yn lle, trefnwyd bod Sian, Euryn, Neville a Kevin (Gweinidog Yr Ofalaeth) yn gofalu am ddwy 'oedfa' yr un ac yn eu dosbarthu ar e-bost i'r aelodau oedd yn derbyn y cyfrwng. Felly y bu rhwng Sul Y Blodau a Sul Y Pasg (Ebrill 5-12).

O ganlyniad i werthfawrogiad yr aelodau, trefnwyd ein bod yn estyn y cynllun trwy wahodd unrhyw un oedd yn dymuno gwneud i anfon neges bob dydd Mercher pan fyddai pecyn yn cael ei ddosbarthu dan yr enw Meddyliau Mercher. Y bwriad wrth ddewis ganol yr wythnos oedd i annog cyfraniadau nad oeddent yn ymwneud ag agweddau crefyddol, gan fod y rheiny dan ofal ein gweinidog. Dechreuodd y cynllun ar Ebrill 22 a daeth i ben ar Awst 26. Cafwyd amrywiaeth difyr o gyfraniadau yn enwedig, oddi wrth Euryn Ogwen yn farddoniaeth ac emynau wythnosol. I gyfoethogi'r arlwy, fe'n swynwyd gan gyflwyniadau ar gân Sian Meinir o weithiau Euryn. Mae gan Sian dudalen Youtube lle gellir cael gwledd. Isod mae enghraifft o gynnyrch Euryn. Cafwyd cerdd goffa i Alcwyn Evans ganddo yn rhifyn Mehefin 2020 o'r *Dinesydd*. Os hoffech wybod mwy cysylltwch â:
nevillebevans@gmail.com

**Yr Her**
A ddaw yn ddaioni – rhyw olau
    O rywle eleni?
Ystyriwn ein tosturi,
Dyna her ein bywyd ni.

## Llyfr Coginio newydd sy'n ein hannog i fwyta'n lleol ac yn dymhorol

Mae cyfrol goginio newydd *Bwyd Cymru yn ei Dymor /Welsh Food by Season* (Y Lolfa) gan Nerys Howell yn llawn ryseitiau traddodiadol a chyfoes sydd yn dathlu bwyd Cymreig lleol ac yn annog pobl i fwyta'n dymhorol ac yn gynaliadwy.



Mae Nerys, sydd yn rhedeg cwmni ymgynghori bwyd yn Nhreganna, yn angerddol am y safon a'r dewis o gynnyrch sydd yma yng Nghymru. Yn lle prynu'r hyn sy'n gyfleus mae Nerys yn ein hannog yn y gyfrol hon i edrych ar beth sydd ar ei orau ar adegau arbennig o'r flwyddyn.

Mae afalau ar gael o Awst i Ionawr, mefus a thomatos o Fai i Fedi, a digonedd o fresych, winwns a thatws ar gael drwy'r flwyddyn, meddai. Mae blas y cynnyrch yma llawer yn well pan maen nhw'n cael eu mwynhau o fewn y tymor cynhaeaf priodol.

Mae'r gyfrol yn llawn lluniau arbennig y ffotograffydd Phil Boorman, sy'n cyd-fynd yn wych gyda ryseitiau maethlon a blasus Nerys. Mae'r ryseitiau yn addas ar gyfer dechreuwyr a chogyddion profiadol ac yn cynnig syniadau fydd yn cynnig pleser, boddhad ac wrth gwrs bwyd da.

Bu Nerys yn arwyddo copïau o'r llyfr yn Siop Cant a Mil Vintage, Rhiwbeina. yn ddiweddar.

Bydd hi hefyd yn cynnal sesiwn goginio ar Zoom gyda changen Merched y Wawr y Felin ar 15 o Hydref. Cysylltwch ag
eiry.davies@hotmail.co.uk am fanylion.

*Bwyd Cymru yn ei Dymor / Welsh Food by Season, Nerys Howell (Y Lolfa) Pris £14.99*

# NEWYDDION O'R EGLWYSI

## EGLWYS Y CRWYS

Teimlad braf a chynnes oedd cael cyd-addoli yn Y Crwys ar Fedi'r 20fed gyda'r gwasanaeth o dan ofal y Gweinidog. Diolch i Bob Roberts, Robin Owen, a Peredur Owen Griffiths am sicrhau bod pawb yn ddiogel. Oherwydd y newid yn yr amgylchiadau ers canol Medi, cytunwyd i barhau i gynnal gwasanaethau yn rhithiol yn hytrach nag yn y capel er mwyn diogelu ein haelodau.

Yn ogystal â'r oedfa yn y capel yn ystod mis Medi, cafwyd gwasanaethau rhithiol o dan arweiniad y Parchg Ddr R. Alun Evans a'r Parchg Megan Williams. Diolch iddynt am eu harweiniad.

Bydd gwasanaethau mis Hydref ar Zoom gyda gwasanaethau Hydref 4ydd a'r 18fed o dan ofal y Gweinidog; Mr William Tiplady fydd yn arwain ar Hydref 11eg ac ar Hydref 25ain cynhelir Gwasanaeth Diolchgarwch yr Ysgol Sul gydag anerchiad i'r plant gan y Parchg Haydn Thomas.

**Brysiwch Wella**
Mae Mrs Mallt Anderson wedi dychwelyd i Tŷ Enfys wedi cyfnod yn cael profion yn Ysbyty Llandochau. Pob dymuniad da iddi. Ein dymuniadau gorau hefyd i Mrs. Non Davies a fu yn derbyn clun newydd yn Ysbyty'r Fro. Edrychwn ymlaen at ei gweld yn symud o gwmpas unwaith eto.

**Yr Ysgol Sul**
Cyfarfu'r Ysgol Sul ddwywaith ym Mharc Victoria yn ystod mis Medi a chynhelir cyfarfodydd rhithiol yn rheolaidd bob bore Sul. Diolch i Hannah Thomas a'r rhieni gweithgar eraill am eu brwdfrydedd.

**Y Gymdeithas**
Cafwyd cyfarfod diddorol o'r Gymdeithas pryd y cafwyd clywed hanesion y cyfnod clo mewn gwledydd eraill. Cafwyd profiadau Ceri Rhys Davies ym Mharis; Delyth Eikemann yn yr Iseldiroedd a phrofiadau cyfeillion Emyr Gruffydd yn Sbaen. Diolch iddynt i gyd am eu cyfraniadau ac i Cerian Angharad am y trefniadau.

Mae'r cyfarfodydd o'r Boreau Coffi yn parhau ar foreau Mawrth ac Iau a phawb yn edrych ymlaen at weld ei gilydd a mwynhau y sgwrsio. Diolch eto i Cerian Angharad.

## BETHLEHEM, GWAELOD-Y-GARTH

**Oedfaon y Hydref**
Bydd oedfaon mis Hydref 2020 yn cael eu cynnal fel a ganlyn yn y capel (oni nodir yn wahanol), am 10:30 a.m.

Ni fydd Ysgol Sul yn y capel, ond yn hytrach, gyda chefnogaeth rhieni a'r hyfforddwyr, bydd cyfarfodydd rheolaidd rhithiol bob Sul.

4 – Oedfa Gymun - Delwyn Sion

11 – Diolchgarwch yr Ysgol Sul (NODER: Rhithiol yn unig)

18 – Parchg Glyn Tudwal Jones

25 - Oedfa Adferiad - Wynford Ellis Owen

**Allyriadau Carbon**
A welodd unrhyw un adroddiad diweddar gan Oxfam a Sefydliad Amgylchyddol Stockholm yn trafod allyriadau carbon deuocsid ar draws y byd?

Yn ystod y cyfnod 1990 hyd 2015, wydddoch chi bod yr 1% mwyaf cyfoethog o'r boblogaeth yn gyfrifol am allyriant sydd ddwywaith cymaint ag allyriant hanner poblogaeth dlotaf y byd? Dros gyfnod o 25 mlynedd, tra bu 60% o gynnydd byd-eang yn yr allyriant, 'roedd yr 1% cyfoethocaf yn gyfrifol am gynnydd tair gwaith yn fwy na'r hanner tlotaf.

Gor-ddefnydd rhemp y cyfoethog o'n hadnoddau naturiol, a'u meddwdod llwyr ar drafnidiaeth garbon-ddwys sydd i'w gyfrif am y dihysbyddu yma ar y 'gyllideb carbon'. Allyriant er pleser y cyfoethog, ar draul y tlawd – arfer cwbl annheg, medd Oxfam, tra bod cyfran uchel o'r boblogaeth yn byw heb hyd yn oed y cyfleusterau sylfaenol. Petae gweddill y byd yn torri eu hallyriadau i ddim yn unionsyth, heb newid agwedd ymysg y 10% mwyaf cyfoethog, fe gollir y frwydr.

Ac yn y dadansoddiad byd-eang yma, rhag ofn i chi feddwl nad oes gan hyn ddim byd i wneud hefo ni, nodwch bod y 10% cyfoethocaf yn cynnwys unrhyw un sydd ag incwm o fwy na £27 000 ($35 000)! [$100 000 yw'r swm cyfatebol i'ch cyfrif ymysg yr 1% cyfoethocaf!]

"*Gwrandwch ar hyn, chi'r bobloedd, clywch bawb drwy'r byd i gyd – pobl o bob cefndir yn gyfoethog ac yn dlawd.*" [Salm 49:1-2 (Beibl.net)]

## EGLWYS GATHOLIG TEILO SANT

cyswllt: carys@caerdelyn.com

**Offeren**
Er bod eglwys Teilo Sant ar agor i'r plwyf, does dim Offeren fisol yn Gymraeg yno ar hyn o bryd. Ry'n ni'n ymuno gyda'r Esgob Regan a'r Tad Allan Jones ar Zoom bob bore Sul. Mae'n brofiad ry'n ni mwynhau yn Offeren yr Eisteddfod bob mis Awst, pan fydd Catholigion yn dod o bob cwr i'n dathliad blynyddol. Mae cael gweld ein cyd-addolwyr a'u cyfarch cyn neu ar ôl yr Offeren yn ychwanegu at y profiad o gael gwylio dathlu'r Offeren ar ein bwrdd cinio ni'n hunain.

**Yr Eglwys Gadeiriol, Heol Siarl**
Cafwyd achos i ddathlu yng Nghaerdydd yn ddiweddar. Cynhaliwyd yr Offeren yn Gymraeg yn yr Eglwys Gadeiriol yn Heol Siarl, Caerdydd ac roedd wedi'i ffrydio ar y we. Bydd hwn yn wasanaeth cyson o hyn ymlaen, medd y Tad Daniel Stanton sy'n rhedeg yr Eglwys Gadeiriol – ar y we am y tro, ond wrth gwrs, yn agored i'r gynulleidfa pan fydd amodau'n caniatáu.

Mae'r Tad Daniel wedi ymgymryd â'r dasg o ddathlu'r Offeren yn Gymraeg ar drydydd nos Wener y mis, y tro cyntaf i Offeren gael ei dathlu'n rheolaidd yn Gymraeg yn yr Eglwys Gadeiriol ers cyn cof. Brodor o Faesteg yw'r Tad Daniel, a buodd yn ymarfer ei Gymraeg er mwyn cyflawni'r gamp o ddathlu'r Offeren yn iaith y nefoedd.

**Requiem**
Bu achlysur o dristwch mawr yn ein plith pan glywsom am farwolaeth Nia Harri yn 52 oed. Cynhaliwyd yr Offeren Requiem yn Eglwys Teilo Sant, a'r cyfyngiadau'n golygu taw 30 yn unig oedd yn gallu bod yn bresennol. Ond cafodd y gwasanaeth ei ffrydio a'i wylio gan lawer iawn o ffrindiau Nia a'i theulu, a daeth nifer fawr o'i chydweithwyr i fynegi eu cydymdeimlad ar hyd y ffordd y tu allan.

Dyma'r deyrnged dalwyd iddi gan gyfaill y teulu, Aled Gwyn:

*Un o frid llawn hyfrydwch – anwylodd*
*Yr heulwen ei thegwch,*
*Er dod siom drosom yn drwch*
*Erys y cyfeillgarwch.*

Gorffwysed mewn hedd.

## EBENESER

**Gwilym Tudur**

Wrth i Gwilym gychwyn ar ei weinidogaeth yn eglwysi Seion, Aberystwyth a Bethel, Talybont fe benderfynodd eglwys Ebeneser ei anrhegu gyda rhodd ariannol anrhydeddus fel arwydd o'n dymuniadau da i'r dyfodol. Gwilym yw'r unig un a godwyd i'r weinidogaeth Gristnogol gan Eglwys Ebeneser yn ddiweddar. Codwyd y Parchg Hywel Mudd o dan weinidogaeth y Parchg Dr Emlyn Jenkins a'r Parchg Iwan Rhys Jones o dan weinidogaeth y Parchg Dr Geraint Tudur.

Wrth iddo ymgymryd â'i ofalaeth gyntaf, yn y cyfnod heriol hwn, dymunwn bob bendith iddo ef ac Alex, yn dilyn eu priodas fis diwethaf, gan obeithio y bydd yn gyfnod hapus, llewyrchus a llwyddiannus iddynt.

**Pen-blwydd Hapus**

Roedd Mair Hughes yn dathlu pen-blwydd arbennig iawn ar y 3ydd o Fedi yn 90 oed. Llongyfarchiadau calonnog iddi wrth gyrraedd y garreg filltir arbennig hon.

**Cleifion**

Ar ôl treulio rhai wythnosau'n Ysbyty Llandochau mae Beti Pierce, Penylan wedi dychwelyd adref. Hyderwn y bydd yn parhau i gryfhau a dymunwn yn dda iddi i'r dyfodol.

**Nôl ... o'r diwedd!**

Chwe mis wedi pasio ers bod gyda'n gilydd! Pwy feddylie?! Ar ôl cynnal ein gwasanaethau ar Youtube roedd hi'n braf cael dychwelyd yn ôl i Ganolfan yr Eglwys Newydd, i gynnal oedfa yng nghwmni'n gilydd fore Sul, 13eg o Fedi. Er na chawsom gyd-ganu roedd y gymdeithas yn un gynnes a bendithiol. Hyfryd oedd bod rhai ohonom wedi gallu cael sgwrs yn yr awyr agored wedyn, o bellter cymdeithasol wrth gwrs. Ar yr 20fed, cawsom oedfa bnawn am 3 o'r gloch yn yr Eglwys Fethodistaidd, Yr Eglwys Newydd. Y gobaith yw y bydd ein cyfarfodydd yn digwydd am yn ail rhwng y ddau leoliad o ddechrau Hydref.

Mae rhai pethau fel y cyfarfod gweddi ac Odid, yn parhau ar Zoom, am y tro. Mae'n parhau i fod yn gyfnod heriol ac ansicr ond yn un sy'n cynnig cyfleoedd newydd i ddatblygu ein cenhadaeth. Bydd gwasanaethau Ebeneser yn cael eu darlledu'n fyw ar ein dalen Facebook bob Sul ac wedyn ar gael ar Youtube yn ddiweddarach. Braf oedd gweld ystadegau diweddar yn dangos bod cannoedd wedi gwylio'r gwasanaethau dros y chwe mis diwethaf.

**ypod.cymru**

Ydych chi'n lawr-lwythwr ar bodlediadau? Os ewch i ypod.cymru gallwch gael mynediad at bregethau wythnosol Ebeneser yno, yn ogystal ag ar Soundcloud.com

## YR EGLWYS EFENGYLAIDD

**Llongyfarchiadau**

Llongyfarchiadau i Owain James ac Elizabeth Marsay ar eu dyweddïad. Dymunwn bob bendith a hapusrwydd iddynt i'r dyfodol.

**Paned a Sgwrs**

Bob bore Llun a Iau yn ystod y cyfnod clo mae rhai aelodau (gwragedd yn bennaf) wedi bod yn cwrdd yn rhithwir am sgwrs dros baned. Bellach penderfynwyd cyfarfod ar Zoom am 10.30 ar fore Mercher gan ddilyn patrwm (mwy neu lai) y cyfarfod Paned a Sgwrs a gynhelid cyn y clo yn y capel. Un bore byddwn yn cael sgwrs anffurfiol â'n gilydd a'r wythnos wedyn bydd mwy o strwythur i'r cyfarfod gydag astudiaethau Beiblaidd a siaradwyr gwadd.

Ar Hydref 14, edrychwn ymlaen at gael cwmni Nerys King, un o blant yr eglwys, sy'n gweithio, gyda'i gŵr Tom, yn helpu merched yn y diwydiant rhyw yn Pattaya, gwlad Thai. Mae Nerys a Tom ar hyn o bryd yn treulio ychydig fisoedd yng Nghaerdydd.

Mae croeso i unrhyw wragedd ymuno â'r cyfarfod Paned a Sgwrs drwy gysylltu â gwefan y capel, cwmpawd.org

**Trafod Cerddi ac Emynau**

Yn dilyn saib dros fis Awst mae'r sesiynau yma dan arweiniad yr Athro Wyn James wedi ail gychwyn. Ar Fedi 17, buom yn edrych ar un o emynau llai cyfarwydd Morgan Rhys sy'n dechrau gyda'r geiriau:

'Yn erbyn stormyddd mawr a thonnau'

Mae'n debyg i'r pennill olaf fynd yn boblogaidd ar ei phen ei hun fel 'emyn llafar gwlad' yn ystod diwygiadau'r cyfnod. Dyma ddwy linell drawiadol yn y pennill yma

' 'Rwy'n caru hardd lythrennau enw
Yr hwn fu farw yn fy lle'

Mae 'emyn llafar gwlad' arall a oedd yn boblogaidd yn y 19eg ganrif fel petai'n ymhelaethiad ar y llinell am garu 'hardd lythrennau' enw Iesu ym mhennill Morgan Rhys

'Caraf heirdd lythrennau'th enw:
I ac E ac S ac U;
I am iachawdwriaeth rasol,
E am etifeddiaeth fry,
S am sylfaen fawr dragwyddol,
U am undeb gyda Duw.
Bydd llythrennau Iesu i'w gweled
Yn y nef yn hardd eu lliw.'

Pennill gwerth ei ddysgu mae'n siwr!

## BETHEL, PENARTH

Dymunwn yn dda iawn i'n pobl ifainc sy'n gadael gartref i gychwyn neu barhau gyda chyrsiau coleg neu gam nesaf yn eu gyrfa. Mae ein cyfarchion yn arbennig o gynnes eleni oherwydd y pandemig a drôdd y dyddiau oedd i fod yn ddifyr yn ddyrys. Cofiwn hefyd am eu teuluoedd sy adref yn gwylio'r newyddion ac yn poeni amdanynt.

Agorwyd ein Suliau ym mis Medi dan ofal Sian Meinir trwy gyfrwng Zoom. Roedd ei phwyslais ar gyfraniad gweddi o sawl math ar ei phererindod presennol.

Roedd Medi 13eg yn Sul arbennig, yn Sul Y Dychwelyd, pan aeth rhai ohonom yn ôl i Fethel dan arweiniad y gweinidog, Y Parchedig Kevin Davies. Seiliwyd y myfyrdod ar hanesion yn Llyfr Job, yn enwedig yn holi am ymateb un a ddioddefodd yn arw a theimlo her i'w ffydd. Yr un oedd testun diolch ar wefusau pawb oedd yn bresennol, sef, i'r swyddogion am baratoi'n ofalus iawn parthed diogelwch. Diolch mawr hefyd i Emma am estyn croeso i ni fwynhau cwmni a lluniaeth yn ei gardd. Bu rhai craff yn nodi bod lliwiau llachar y blodau yn cydweddu'n berffaith gyda lliwiau gwisgoedd ein merched.

Oedfa Zoom oedd hi eto ar Fedi'r 13eg gyda'n gweinidog. Cyfeiriwyd ein sylw at hanes croesi'r Môr Coch yn Llyfr Exodus.

Bu cyfle eto ar Fedi 27ain i fod gyda'n bugail ym Methel. Maes y myfyrdod oedd Salm 139, 1-12 a Marc 4, 35-41. 'Athro, a wyt ti'n hidio dim ei bod ar ben arnom?' Mae'r Iesu'n angor gadarn wrth inni hwylio'r don.

Mae'n anochel meddwl am y trefniadau sydd o'n blaen a hynny yn sgîl y newyddion bod Caerdydd yn 'cloi' ar ddydd Sul, Medi 27ain.

## SALEM, TREGANNA

**Gwasanaethau Byw a Zoom!**

Ers dechrau Medi rydym wedi agor ein drysau eto yn llythrennol i gael gwasanaeth am 11 ac mae croeso i chi ymuno â ni ar fore Sul. Am fod cyfyngder o ran niferoedd, gofynnwn i chi roi gwybod i Evan os ydych yn bwriadu dod o flaen llaw ac i dderbyn y manylion er mwyn sicrhau nad ydym yn torri rheolau ymbellhau. Mae'r ysgol Sul cynradd wedi ailddechrau hefyd, gofynnwn i chi gofrestru eto ymlaen llaw. Mae gwasanaethau Zoom yn parhau hefyd ar fore Sul am 10.15 cyn hynny, felly mae croeso i bawb ymuno. Croeso i chi gysylltu os hoffech ragor o fanylion.

**Picnic yn y Parc**

Bu teuluoedd Salem yn mwynhau picnic yng nghaeau Llandaf ar 13 Medi. Cyfle i ddod at ein gilydd ac mor braf oedd gweld teuluoedd ar ddechrau'r flwyddyn, gan ymbellhau'n gymdeithasol wrth gwrs, a chymdeithasu yn yr awyr agored.

**Pobl Ifanc**

Daeth y clwb at ei gilydd nos Wener 18 Medi i gael sglodion ym mharc Fictoria, cyfle i gymdeithasu tu allan. Hyfryd gweld nifer wedi dod, ac rydym yn dymuno'n dda i'n pobl ifanc sy'n dechrau mewn colegau a phrifysgolion ddechrau'r mis. Pob dymuniad da i chi i gyd!

**Cydymdeimlo**

Trist iawn i ni'n Salem oedd clywed ein bod wedi colli John Walter Jones, aelod a chyfaill annwyl. Cydymdeimlwn yn fawr â Gaynor yn ei cholled anferth a byddwn yn gweld ei eisiau'n fawr yn Salem. Cydymdeimlwn hefyd â Jonathan, Meinir, Holly a Lili Nefydd wedi iddynt golli tad a thaid. Meddyliwn hefyd am Eurfyl Jones sydd wedi colli ei chwaer yn ddiweddar. Anfonwn ein cydymdeimlad dwysaf atoch a'ch teuluoedd.

## EGLWYS DEWI SANT

**Eglwys Dewi Sant ar yr Aelwyd**

Y ddau wasanaeth yn y bore a chyda'r hwyr trwy bodlediad, yw'r prif wasanaethau ar y Sul o hyd, er i'r gwasanaeth cyhoeddus cyntaf dan gyfyngiadau, gael ei gynnal ddydd Sul yr 16eg o fis Awst i'r rhai a deimlai'n gyfforddus ynghylch addoliad cyhoeddus.

Diolch i'r rhai sy'n gofalu am baratoi a glanhau'r eglwys ar gyfer y gwasanaeth hwn.

**Llongyfarchiadau**

Llongyfarchiadau i Huw Carson a Lauren Jones a briodwyd yn ddiweddar yn Eglwys Dewi Sant. Dymuniadau gorau iddynt ar gyfer y dyfodol.

**Coffi a Chlonc**

Diolch eto i Siân Eleri Thomas am gynnal ac arwain bore Coffi a Chlonc rhithiol ar y Zoom ar y 19eg o fis Medi ac i William Reynolds am ei gyflwyniad graenus a diddorol ar y dechrau ar hanes cerddoriaeth eglwysig yng Nghymru. Y bwriad yw cynnal un arall fis nesa ar yr 17eg o fis Hydref rhwng 10:30 a 12:00.

**Cydymdeimlad**

Cydymdeimlwn â theuluoedd Islwyn Jenkins, Robin Beecher ac Enid Diplock a fu farw yn ddiweddar.

**Y Banc Bwyd**

Gan nad oes modd ar hyn o bryd i gyfrannu nwyddau i'r Banc Bwyd a'u cludo yno, rhoddwyd gwybod yn y Cylchlythyr gan Y Ficer sut i gyfrannu'n ariannol tros y we a bod modd hefyd gadael rhoddion yn y mannau casglu nwyddau i'r Banc Bwyd sydd mewn nifer o archfarchnadoedd yng Nghaerdydd.

## EGLWYS MINNY STREET

**Cydymdeimlo**

Cofiwn yn ddiolchgar am Gaynor Wilkins (Llysfaen). Cydymdeimlwn yn ddiffuant iawn â'i phriod, John, y plant, Owain a Rhiannon, ac â'r teulu ehangach a'i chyfeillion niferus. O fewn y cyfyngiadau presennol, cynhaliwyd gwasanaeth i ddiolch am fywyd a chyfraniad Gaynor yn Minny Street ar 25 Medi.

**Addoli a Chydaddoli**

Yn ystod mis Medi parhawyd i agor drysau'r capel ar fore Sul ar gyfer addoliad i aelodau sy'n dymuno ac yn rhydd i ddod i'r capel. Gwnaed hynny gan gydymffurfio â rheoliadau Llywodraeth Cymru, Undeb Annibynwyr Cymru a CYTÛN. Bu'r ymateb o du aelodau yn frwd ac yn dyst i'r fendith a geir o gydaddoli yng nghwmni ein gilydd ac o dan arweiniad y Gweinidog. Ers dechrau Medi cyrhaeddwyd y nifer mwyaf o aelodau y mae modd eu cael yn y capel yn ddiogel yn gyson ar fore Sul, gydag ambell un yn ymuno yn yr addoliad o'r festri.

Oherwydd yr angen i sicrhau diogelwch mae'r addoliad yn y capel yn brofiad gwahanol iawn i'r hyn rydym yn gyfarwydd ag ef, ac mae'r angen i gadw pellter yn cyfyngu ar nifer y gynulleidfa a all fod yn y capel ar gyfer yr addoliad. Y Gweinidog sy'n arwain yr addoliad, gan ddilyn y taflenni oedfa wythnosol a baratowyd ganddo'n gyson ers dechrau'r pandemig. Mae'r taflenni yn parhau i gael eu dosbarthu i bob un o aelwydydd yr eglwys fel bod pawb, boed yn y capel neu ar yr aelwyd, yn medru cydaddoli. Bellach clywir sain yr organ yn ystod yr addoliad a bydd cyfle dros y misoedd nesaf i gael ein harwain gan leisiau gwahanol yn y capel.

Rhagwelir y bydd y patrwm hwn ar addoli'n parhau am beth amser. Mae'r taflenni oedfa i'w gweld ar wefan yr eglwys. Wrth i'r tymor fynd ymlaen, cyhoeddir manylion trefniadau ychwanegol a fydd yn bosibl o fewn cyfyngiadau lleol a chenedlaethol.

www.minnystreet.org @MinnyStreet

## TABERNACL, YR AIS

**Llongyfarch ein pobl ifanc**

Cafodd llawer o berthnasau i deuluoedd yr eglwys ganlyniadau gloyw fel y gallant fwrw iddi ar eu cyrsiau nesaf. Llongyfarchiadau i bob un ac edrychwn ymlaen i glywed am eu cynnydd yn y dyfodol. Yn yr un modd bydd rhai o'r disgblion cynradd yn symud ymlaen i addysg uwchradd, a rhannwn eu llawenydd hwy ac eraill yn cychwyn ar y daith. Mewn blwyddyn ryfedd bydd byd addysg, fel sawl maes arall, yn gobeithio gallu cynnig sefydlogrwydd i sicrhau bod yr ifanc yn cael cyfleon priodol i ddatblygu yn eu hastudiaethau.

**Llongyfarchiadau**

Llongyfarchiadau i Nerys Howell wrth iddi gyhoeddi ei llyfr newydd *Bwyd Cymru yn ei Dymor*. Dyma gyfle cynnar i archebu un o'ch anrhegion Nadolig cyn y rhuthr!

**Gardd y Tabernacl**

Diolch i'r tîm o arddwyr dan gyfarwyddyd Marc Jon am dacluso'r ardd goffa. Mae llawer o'r chwyn wedi diflannu ac roedd ambell i lwyn angen torri nôl.

**Oedfaon Mis Medi**

Ym mis Medi fe gynhaliwyd oedfaon byw yn y capel ar nosweithiau Sul, a chawsant eu darlledu ar What's App ac YouTube.

Y cyntaf oedd Oedfa Gymun o dan ofal y Gweinidog yna ar yr ail Sul, tro'r ifanc oedd hi dan arweiniad Lisa Tiplady. Y trydydd oedd gwasanaeth yn nwylo Euros a Sian ar ran aelodau'r eglwys o Fro

Morgannwg. Marc Jon oedd wrth y llyw yn oedfa ola'r mis.
Yn ogystal, drwy'r cyfnod cynhaliwyd Cyrddau Gweddi bob nos Iau yn y capel gan ddilyn cyfyngiadau Covid yn ofalus. Recordiwyd rhain hefyd a'u darlledu drwy'r cyfryngau digidol. Tra bydd cyfyngiadau Covid-19 yn parhau, byddwn yn cadw at y drefn o un cantor yn unig, a phawb yn eistedd dwy fetr ar wahân oni bai eu bod yn uned deuluol.

## Holi Rhys ap Wiliam

*Mae llais Rhys i'w glywed yn y Stadiwm Genedlaethol yn ystod gemau rygbi Cymru. Fe oedd yn cyflwyno Tŷ Rygbi ar S4C ac mae hefyd yn gadeirydd Clwb Rygbi Cymry Caerdydd (CRCC).*



**Wrth edrych ymlaen at gemau rhyngwladol tîm rygbi Cymru yn yr Hydref, sut wyt ti'n credu y gwnaiff y chwaraewyr sy wedi dod drwy system ysgolion Cymraeg Caerdydd?**

Os bydd Rhys Patchell yn ffit dwi'n meddwl y caiff e le yn y tîm ac mae siawns y gall Jamie Roberts gael ei ddewis gan ei fod nôl yn chwarae yng Nghymru.

**Sut mae'r cyfnod clo wedi bod i ti ac i glwb rygbi CRCC?**

Mae hi wedi bod yn gyfnod rhyfedd i'r Clwb. Ry'n ni'n gyfarwydd â bod ar wasgar ar draws y ddinas ac mae'n bosib y bydd blwyddyn gyfan yn mynd heibio tan i ni chwarae gemau eto, gan taw nôl ym mis Chwefror y chwaraeon ni ddiwethaf.

Fel rho' ni'n dechrau gweld gobaith, ma'r cyfnod clo lleol yn gweld yr Undeb yn dod â rygbi i ben unwaith eto. Penderfyniad caled i'w wneud ac i'w dderbyn, ond diogelwch ac iechyd y gymuned rygbi sy'n bwysig ac wrth gwrs, pobl Caerdydd.

Fe gafodd *Tŷ Rygbi* ei ddangos dros yr haf yn y tŷ ro' ni fel teulu yn ei adnewyddu a oedd yn llawer o hwyl am naw wythnos gyda Shane Williams, Mike Phillips a Sioned Harries.

Ma'r cyfnod hwn fel arfer yn gyfnod prysur i mi gyda rygbi byw, digwyddiadau chwaraeon eraill, a chyfresi drama ac i mi'n bersonol, mae'r gwaith wedi diflannu. Bellach ma'r gwaith chwaraeon yn dychwelyd yn araf bach ac ma'r tŷ yn dechrau siapo ac ry'n ni'n gobeithio symud mewn cyn bydd Siôn Corn yn galw draw.

**Mae dy blant yn mynd i Ysgol Treganna sy'n ysgol dair ffrwd. Gyda llai o gyfleoedd, o bosib, yn ein hysgolion i chwarae rygbi, wyt ti'n credu fod gan Glwb rygbi CRCC rôl i'w chwarae wrth roi cyfle i blant chwarae rygbi mewn awyrgylch Gymraeg?**


Mae clybiau rygbi cymunedol mor bwysig ac ry'n ni'n glwb sy'n treial creu awyrgylch groesawgar Gymreig i bawb, yn siaradwyr Cymraeg neu beidio. Ry ni'n rhoi cyfle i blant ac oedolion o bob safon, profiadol neu newydd i brofi'r gêm.

Rhaid i'r Undeb, y clybiau a'n hysgolion weithio gyda'i gilydd yn enwedig yn y cyfnod heriol yma. Mae'n rhaid cael undod gan ei fod yn gyfnod anodd iawn i rygbi Cymru a rygbi'n gyffredinol. Mae CRCC yn awyddus i chwarae rôl, i feithrin talent ac i roi hwyl i bawb wrth godi pêl rygbi.

Bydd Rhys yn rhan o dîm sylwebu S4C pan ddaw cystadlaethau rygbi Ewrop yn ôl ym mis Rhagfyr ac mi fydd ei lais i'w glywed yn sylwebu ar *Ralïo* a sianel Premier Sports.

Cewch gyfle i'w weld yn ogystal yn chwarae rhan cymeriad Kevin yn y ffilm *Dream Horse* a gaiff ei rhyddhau'n fuan.

## Mae Twînî wedi bod yn astudio'n galed, yn enwedig trwy'r cyfnod clo.



# Cwmni'r Dysgwyr

*"Mae wedi bod yn dymor Clonc yn y Parc."*

## Gwilym Dafydd



### Clonc yn y Parc

**Clonc ym Mharc Thompson, Treganna, Caerdydd, 29 Awst**

Am gwpl o flynyddoedd o leiaf mae grŵp o ddysgwyr Cymraeg wedi bod yn cwrdd ar nos Lun yn Chapter yn Nhreganna - Clonc yn y Cwtsh - ond oherwydd cyfyngiadau Covid-19 roedd rhaid i Chapter gau. Parhaodd Clonc yn y Cwtsh ar-lein a phan gafodd y cyfyngiadau eu llacio dechreuodd pobl siarad am drefnu picnic i ddysgwyr - Clonc yn y Parc - yn dilyn llwyddiant dau ohonyn nhw y llynedd a'r ffaith bod pobl yn ysu am gael cwrdd â phobl eraill yn y cnawd unwaith eto.

Roedd cryn drafodaeth ynglŷn â lleoliad y picnic! Cynhaliwyd yr un cyntaf y llynedd ym Mharc Bute a'r ail yng Ngerddi Waterloo felly penderfynwyd cynnal y trydydd yn ôl yng ngorllewin Caerdydd ym Mharc Thompson yn Nhreganna ddydd Sadwrn 29 Awst.

Roedd y tywydd yn ofnadwy yn ystod yr wythnos cyn dyddiad y picnic ac ro'n i'n poeni y basai'n rhaid inni ei ganslo ond tua diwedd yr wythnos dechreuodd y tywydd wella a phan deffrois i fore Sadwrn roedd hi'n sych a'r haul yn tywynnu'n braf.

Roedd y picnic yn llwyddiannus iawn. Daeth tua 25 o bobl gan gynnwys tua 4 siaradwr iaith gyntaf ac un ci! Roedd hi mor hyfryd gweld pobl am y tro cyntaf ers misoedd - hen ffrindiau a phobl newydd fel ei gilydd. Ro'n ni mor lwcus efo'r tywydd hefyd - roedd hi'n braf ac eitha cynnes drwy'r prynhawn. Afraid dweud cadwodd pawb at y rheolau ymbellhau cymdeithasol a daeth pobl â digon o fagiau sbwriel a bagiau ailgylchu fel na adawyd unrhyw lanast ar ein hôl ni.

Yn ystod y picnic penderfynwyd cynnal un arall mewn tair wythnos - y tro yma yn ôl yn nwyrain y ddinas ym Mharc y Rhath. Do'n i ddim yn gallu mynychu y picnic hwn ond mae Rwth Evans wedi ysgrifennu erthygl amdano fe yn y rhifyn hwn o'r Dinesydd.

*Matt Spry*



### Clonc ar Rec y Rhath



Y tro 'ma, 19 Medi, ar Rec y Rhath trefnodd griw Clonc yn y Cwtsh bicnic ar gyfer dysgwyr a siaradwyr Cymraeg. Cyhoeddwyd y digwyddiad trwy ein grŵp Whatsapp (66 aelod erbyn hyn!), ar Facebook a dros Drydar (diolch i'r Dinesydd!)

Gwnaethon ni'n siŵr ein bod yn ymbellhau'n gymdeithasol a chadw at y rheolau presennol yng Nghymru o dim mwy na 30 yn ymgynnull tu fas.

Roedd y tywydd yn braf gydag awel ysgafn. Daeth 18 o bobl â'u cadeiriau plygu, blancedi picnic a'u pecynnau bwyd. Mwynheuon ni'r sgyrsiau, y cwmni, yr awyr ffres a chafodd rai hufen iâ o barlwr Joe hyd yn oed! Dysgon ni dermau newydd a chyfnewidon ni glecs. Croesawon ni sawl person newydd i'r grŵp a chawson ni ddiwrnod i'r brenin!

Bydd y picnic nesaf (yr un olaf am eleni siŵr o fod!) yng Ngerddi Llyfrgell yr Eglwys Newydd, 2yp, ddydd Sadwrn 10 Hydref 2020. Dewch yn llu! Bydd croeso mawr i chi!

*Rwth Treganna*

### Amser Jôc gyda Huw James

**Ianto angen gwraig**

Penderfynodd Ianto fod yr amser wedi dod i chwilio am wraig. Roedd ei fam a'i dad yn heneiddio ac yn fuan byddai angen cymorth arno yn ei fferm anghysbell. Y broblem oedd doedd dim llawer o gyfle ganddo i gyfarfod â merched. Ond roedd e'n mynd i gapel bob dydd Sul ac felly penderfynodd e chwilio yno.

Ond aeth dim byd yn iawn. Os oedd e'n gweld merch roedd e yn ei ffansio, basai'n ei gwahodd hi nôl am de prynhawn Sul. Ond doedd ei fam ddim yn hoffi'r un ohonynt.

Gyda'r gyntaf roedd problem yn ei ffordd o wisgo.

Gyda'r ail roedd problem yn ei ffordd o drin ei gwallt.

Gyda'r drydedd roedd problem yn ei ffordd o siarad.

Gyda'r bedwaredd meddyliodd Ianto ei fod wedi canfod yr ateb o'r diwedd. Roedd y ferch hon yn union fel ei fam:

yr un ffordd o wisgo
yr un ffordd o drefnu ei gwallt
yr un ffordd o siarad.

Ond doedd dim byd yn tycio – doedd ei dad ddim yn medru ei goddef.

## Pomodoro i helpu Dysgwyr ganolbwyntio!

A ydych chi wastad yn bwriadu treulio amser yn ehangu geirfa, darllen yn y Gymraeg, gwrando ar bodlediadau neu hyd yn oed astudio'r treigladau? Mae mor hawdd gadael i rywbeth eich rhwystro chi – galwad ffôn, hysbysiad o weplyfr, neges testun, ffansio paned ayyb.

Beth am drio'r Dechneg Pomodoro? – dull a ddatblygwyd gan Francesco Cirillo yn wythdegau'r ugeinfed ganrif. Defnyddiodd Cirillo amserydd i dorri lawr gwaith i sesiynau o bum munud ar hugain wedi'u dilyn gan bum munud o egwyl. Galwyd pob sesiwn yn Pomodoro, o'r gair Eidaleg am domato ar ôl yr amserydd cegin gyda siap tomato a ddefnyddiwyd gan Cirillo pan oedd e'n fyfyriwr.

Dyma drosolwg o'r Dechneg Pomodoro.

Dewiswch eich tasg a'r amser cyfan sy angen ichi weithio arni.

Setiwch yr amserydd am bum munud ar hugain.

Gweithiwch ar y dasg am bum munud ar hugain. **Rhaid osgoi unrhyw ymyriadau a dymuniadau i amldasgio.**

Cymerwch seibiant o bum munud i adnewyddu eich egni. Dechreuwch Pomodoro arall.

Cymerwch seibiant o 20 – 30 munud ar ôl cwblhau pedwar Pomodoros.



Rydych chi'n gallu addasu'r dull, wrth gwrs i'ch sefyllfa eich hunan. Nid **hyd** yr amser sy'n bwysig ond rhaid osgoi unrhyw ymyriadau **a'r dymuniad i amldasgio**. Rhaid canolbwyntio ar y dasg a dim ond y dasg.

Tasech chi'n penderfynu defnyddio'r dull hwn, dydy hi ddim yn eich atal chi rhag amldasgio ar adegau eraill – yn gwrando ar y Gymraeg pan rydych chi'n garddio neu'n smwddio er enghraifft.

Darllenwch mwy am y dull**:** https://francescocirillo.com/pages/pomodoro-technique

Pob lwc!

*Lynda Pritchard Newcombe*

---

# Cymrodorion Y Barri

## Noson i'w chofio yng 'nghwmni' Mererid Hopwood

Penderfynodd pwyllgor y Cymrodorion (trwy Zoom) gynnal y cyfarfod cyntaf o'r flwyddyn newydd yn rhithiol, a chawsom sgŵp gan mai ein gwestai cyntaf oedd neb llai na'r Prifardd Mererid Hopwood gyda'i darlith arobryn ar 'Iaith'.



Mae Mererid yn rhugl yn yr Almaeneg a'r Sbaeneg, heb son am y Gymraeg a'r Saesneg, ac mae ganddi grap go lew ar Ffrangeg hefyd. Mae iaith yn fwy na geiriau a gramadeg meddai, mae hi'n ffenest i'r byd ac yn cynnig perspectif gwahanol. Cymharodd rai o ieithoedd y teulu Indo-Ewropeaidd a'r ffordd y mae geiriau yn ymdebygu i'w gilydd – er enghraifft "tri, three, trois, tres, drai.." Gellir defnyddio'r tebygrwydd hwn i ddysgu iaith Ewropeaidd. Mae i bob iaith ei sŵn neu ei acen arbennig, sydd yn ran o bersonoliaeth y genedl sy'n ei siarad. Adroddodd Mererid frawddeg yn Sbaeneg ac Almaeneg gan ddefnyddio acen Gymreig, ac eto gydag acen gywir yr iaith ei hun, i ddangos hyn.


Mae pawb sy'n ymdrechu i ynganu geiriau Cymraeg yn gywir (fel ee "Llanelli") ar eu ffordd i ddysgu'r iaith, meddai. Does dim dysgwyr yn nhŷb Mererid, dim ond pobl sydd ar eu ffordd i ddod yn rhugl. Maen nhw ar y bws iawn!

Darllenodd gerdd Saesneg a gyfansoddodd i ddangos i'r di-Gymraeg sut mae'r iaith Gymraeg yn gweithio. 'What's Wales in Welsh?' – ystyr Wales/Welsh yw estroniaid. Daw'r gair Cymro o 'Combrogos' yn y Frythoneg sef cyfuniad o 'com' (cyswllt neu berthynas) a 'bro', sy'n rhoi 'cydwladwyr' i ni. Ac meddai Mererid ar ddiwedd ei cherdd

*"Let me say that when you call us foreign, We'll open a hand, and invite you to join us. For we are the People of the Together Land"*

Diolch i Mared Furnham am reoli'r ochr dechnegol, i Euryn am drefnu ac yn bennaf oll i Mererid am noson i'w chofio.

## Rhif: 207





### Ar Draws

1. '----- ----- ----- ----- ----- chlychau
   Yn gyffro yn y gwynt' (RWP) (2,3,1,3,2'1)
7. 'Can' miloedd oedd ynof o ofnau'n gytun
   Nes clywed bod ----- y ddaear yn ddyn' (WW) (5)
8. Aderyn o'n bro ni (5)
9. 'Gwelais dy ----- liw dydd
   Ar ffordd yr ucheldir iach' (EW) (3)
10. Gwneud tŷ adar o Delyn Moc (9)
11. Cymryd naid yn ôl mewn dadl am uno (6)
12. Ffrwyth gradd wrthodwyd ddwy waith (6)
15. Ynghylch sialens y gwir, mae'n ddiffygiol (9)
17. Gwresogydd tŷ Wyn efallai (3)
18. Mae hon, fe glywn, yn cael seibiant bach (5)
19. Mewn anfoesoldeb parhaol (5)
21. Lonydd aur wedi arwain at ymwneud â phapurau (12)

### I Lawr

1. 'R oedd y tai yn brin yn ----- -----
   A'r gwaith yn bur galed a thrwm' (DGJ) (5,7)
2. 'Mae ----- wedi mynd
   Mae heddiw'n eiddo i mi' (RA) (3)
3. Calonogi dyn o bum deg un (6)
4. Cael grym o daith gyda'n gilydd (9)
5. Mae'r siwrne drosodd yn y car benthyg (2,3)
6. 'Pentwr arall; yna gorffwys
   ----- ----- ----- -----' (WCW) (5,2,2,3)
7. Craidd calon dorredig (5)
10. Mae'n dderbyniol i'r cymeriad golli un wy (9)
13. Cywasgu'r anniogel yw'r nod. (5)
14. ' ----- a thrugaredd yn ddiau a'm canlynant holl ddyddiau fy mywyd (Salmau) (6)
16. Tre'r '*regatta*' diddiwedd yn dwyn atgofion o'r gorffennol (3,2)
20. Call bod yn drist yn Lloegr (3)



**Enillydd Croesair Rhif 205**
**Emrys Griffiths, Rhosgadfan, Caernarfon**

**Atebion Croesair Rhif 205**

**Ar Draws:** 7.Parod yw i wneud 8. Deganwy 9. Wrol 10. Argraff 12. Gwasgu 14. Dicter 16. Dagrau 18. Darn 20. Siacedi 22. Adar mân y mynydd uchel

**I Lawr:** 1. Baldorddi 2. Bolgar 3. Cyrn 4. Digysgod 5. Andwya 6. Euro 11. Fforestydd 13. Gwarineb 15. Tanllyd 17 Gwefus 19 Afal 21. Asyn

Danfonwch eich atebion at Rhian Williams
erbyn 5 Tachwedd, 2020
22 Heol Cae Rhys, Rhiwbeina, Caerdydd, CF14 6AN

# Merched y Wawr
# Y Felin

Wedi cyfnod o dawelwch yn ystod y gwanwyn a'r haf am resymau amlwg, cynhaliwyd cyfarfod cyntaf tymor hydref Cangen y Felin nos Iau Medi 17 ar Zoom.

Cafwyd cwis heriol a hwylus a baratowyd i ni gan Heulwen Jones, ein llywydd a Glenys Evans yr is-lywydd. Ymunodd nifer o gystadleuwyr ac wrth groesawu pawb ar y sgrin, diolchwyd iddynt am fentro i symud ymlaen gyda'r dechnoleg fodern, wedi llwyddiant anhygoel y gangen newydd hon y llynedd.

Nid yw'n hawdd i bawb ar Zoom ond yn fuan roeddem i gyd yn teimlo'n hollol gysurus yng nghwmni'n gilydd ac fe gafwyd llawer o sbri. Roedd y cwestiynau'n amrywio ac yn tynnu ar wybodaeth am luniau, merched amlwg, cerddoriaeth ac am Gymru. Yr un fwyaf gwybodus ohonom i gyd oedd Nest Gwilym. Estynwn longyfarchiadau enfawr iddi hi ar ddod yn fuddugol.

Bydd tri chyfarfod Zoom arall yn ystod y tymor:

Hydref 15: CogUNO gyda Nerys Howell, cyfarfod creadigol ar y cyd neu wylio'n unig.

Tachwedd 19: Trefnu blodau ar gyfer y Nadolig gyda Ann Mears.

Rhagfyr 17: Adloniant gyda Trystan Francis ac Owen Saer

Os ydych am ymaelodi â changen y Felin, cysylltwch ag eiry.davies@hotmail.co.uk neu ffoniwch 07855666242.

# Ryseitiau Merch y Ddinas



## *Haelioni'r Hydref*

**Lowri Haf Cooke**

Dwn i ddim amdanoch chi ond ar hyn o bryd mi ydw i'n un i gyfri mendithion. Dwi'n ddiolchgar am iechyd fy nheulu a ffrindiau, ynghyd â'm iechyd innau. Ges i haf braf o grwydro, yng Nghaerdydd a thu hwnt, a thoc cyn cyhoeddiad y 'clo bach' ym mis Medi ges i nofio efo morlo! Yn Sir Benfro oedd hwnnw, adeg ein 'Haf Bach Mihangel' - profiad hyfryd dros ben yng Nghwm yr Eglwys. O ddychwelyd i'r Brifddinas, es i ar grwydr o Benarth i Larnog, i chwilota am ffrwythau'r tymor. Diolch byth i mi wneud gan mai dyna'r tro olaf y caf ymweld â Bro Morgannwg am dipyn...

Mewn un ffordd siwrne seithug ges i'r diwrnod hwnnw, gan mai fy ngobaith oedd canfod Rhafnwydd y Môr. 'Be goblyn?', glywa i rai yn ebychu, wrth ddarllen *Y Dinesydd* digidol! Sea Buckthorn yw rhafnwydd neu rhafnwydden-y-môr; ffrwythau bach oren, sy'n tyfu ar ddraenen, sydd yn eu tymor ar hyd arfordir Cymru. Yn 2018, blasais hufen iâ rhafnwydden-y-môr yn Hufenfa'r Castell yn Harlech – sôn am chwyldro i'r hen benglog! Roedd fel cyfuniad o fango, eirin gwlanog a melon – yn felys, yn sur, a phersawrus. Mae'r ffrwythau'n llawn daioni a fitaminau lu, ac ro'n i wedi ffansi creu diod hydrefol i'm hatgyfnerthu. Wedi'r cyfan, pwy a wŷr be ddaw nesa, ynte? Breswylwyr Bro Morgannwg – ewch i grwydro, da chi! Pigais y llecyn anghywir y tro hwn gwaetha'r modd – a fyddech cystal â chwilota drosta i?

Trwy drugaredd, roedd digon o fwyar, ac egroes ac eirin tagu. Gwledd yn wir i un fel fi sydd wrth eu bodd yn arbrofi â blasau tymhorol. Dyna'r tro cyntaf i mi droedio'r llwybr rhwng Penarth a thraeth Larnog, a bu'n ymweliad diddorol dros ben. Yno y darganfuwyd esgyrn deinosor y Dracoraptor Hanigani yn dilyn storom yn 2014. Ni welais yr un asgwrn deinosor, na ffosil o ran hynny, ond ces olygfa dda o ynysoedd Ronech ac Echni. Ac mae'r creigiau trawiadol sy'n deillio o'r cyfnodau Jwrasig a Thriasig yn bendant werth eu gweld yn ogystal.



Ond 'nol at y gegin, a ffrwythau coed Larnog, trois at ddefod hydrefol sy'n andros o hawdd i ddilyn. Os na flasoch chi jin eirin tagu o'r blaen, dyma ddiod danteithiol dros ben. Mae'r enw'n datgelu blas chwerw'r eirin hyn, ac mae rhai'n ychwanegu siwgwr i'r jin. Yn bersonol dwi'n hepgor y siwgwr – mae'n cuddio'r blas naturiol - gan gydbwyso'r jin â dŵr tonig dros rew. Wrth ei baratoi nawr bydd yn barod ar gyfer y Nadolig ac yn flas i gynhesu'r galon ganol Gaeaf. Archwiliwch ganghennau'r ddraenen ddu am yr 'eirin duon bach' sydd, yn eu tymor, yn nes at liw glas. O.N. Ewch ati nawr i bigo egroes – sef ffrwythau'r rhosyn gwyllt – a'u rhewi os oes rhaid, ar gyfer rysait rhifyn mis Tachwedd o'r Dinesydd!

**Jin Eirin Tagu**

450g Eirin Tagu
225g Siwgwr (opsiynol)
1 Litr Jin Sych Llundain

Yn gyntaf, golchwch yr eirin tagu, a'u rhewi dros nos. Wrth eu rhewi, mae'r croen yn torri, gan ryddhau'r sudd cyfoethog. Yna estynwch ddwy botel neu jar gan sicrhau eu bod yn berffaith lân. Rhannwch yr eirin rhwng y poteli, cyn ychwanegu'r jin, a'r siwgwr (os y dymunwch). Wedi gosod caead am bob potel neu jar, ysgwydwch yn dda. Gwnewch hyn bob dydd am wythnos, yna unwaith yr wythnos. Ymhen deufis bydd y jin eirin tagu yn barod i'w weini, ar y cyd â dŵr tonig, dros rew.

# Cymru yn tanio o dan Ryan Giggs

Fel nifer o gefnogwyr Cymru, roeddwn i'n gyndyn o dderbyn Ryan Giggs fel ein rheolwr cenedlaethol i ddechrau. Doedd dim profiad go iawn gydag e o reoli ac oherwydd ei fod wedi methu gymaint o gemau cyfeillgar i ni fel chwaraewr, roedd wastad cwestiwn am ei ymrwymiad i'r henwlad. Ond does dim byd yn llwyddo fel llwyddiant nag oes?



*Gareth Bale*

Roedd y buddugoliaethau yn erbyn y Ffindir a Bwlgaria yn brawf o lwyddiant polisi 'ieuenctid' Giggs. (Roedd Ryan ei hun wrth gwrs yn chwarae i Man United a Chymru pan oedd e ond yn 17eg oed.) Ar gyfer y ddwy gêm yma a heb ein harwyr Aaron Ramsey (anaf) a Gareth Bale (nad oedd yn hollol ffit) roedd rhaid i'r rheolwr chwilio am waed newydd. A wele Kieffer Moore a Neco Williams yn dod i'r adwy gyda goliau hwyr - a Chymru bellach ar ben ei grŵp yng Nghyngrair y Cenhedloedd.

Llond dwrn yn unig o dîm chwedlonol Ewro 2016 oedd ar y cae yn ystod y ddwy gêm yma ac yn hytrach na dibynnu ar chwaraewyr sy'n dod at ddiwedd eu gyrfa mae Giggs bellach yn meithrin carfan newydd a chyffrous sydd eisoes yn dangos hyder yn eu chwarae. Mae Ethan Ampadu yn chwaraewr hyblyg sy'n gallu chwarae yn y cefn neu yng nghanol cae. Mae'n braf gweld aelodau timau Cymreig fel Connor Roberts, Will Vaulks a Ben Cabango hefyd yn cael cyfle ond mae gen i ofn y bydd yn rhaid i Dan James adael Man U os yw e am chwarae'n gyson.

Felly am unwaith mae modd i ni edrych ymlaen gyda hyder at ein gemau nesaf. Wel, yn achos y gêm gyfeillgar yn erbyn Lloegr efallai mod i ddim cweit mor hyderus. Am ryw reswm, mae timau pêl-droed Cymru yn dal i fyw yng nghysgod yr hen elyn ac rwy'n poeni y bydd y bois yn 'rhewi' unwaith eto o dan fwa Wembley. Ond yn y gemau sy'n cyfri ym mis Hydref, yn erbyn Iwerddon yn Nulyn a Bwlgaria yn Sofia, rwy'n darogan o leiaf pedwar pwynt i fy eilun newydd Giggsy a'r crysau cochion.

C'mon Cymru !

*Tim Hartley*



*Tîm a'r Wal Goch yn Ewro 16*



*Cymru v Bwlgaria Medi 2020*

*Lluniau: Andrew Dowling photo/Shutterstock.com*